
# Comisiynydd Plant Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 09/10



04 Dan y sbotolau

08 Cipolwg y tu ôl i'r llenni

12 Blwyddyn ym mywyd Comisiynydd Plant Cymru

18 Sut rydym ni wedi helpu rhai o blant a phobl ifanc ein gwlad

24 Adolygiad o'r materion allweddol

42 Cyfrifon

**Rhai ffeithiau allweddol am Gomisiynydd Plant Cymru**

## Bu'r Comisiynydd yn ymweld â 52 o grwpiau o blant a phobl ifanc

## Ymatebodd i 40 ymgynghoriad gan y llywodraeth

## Mae'r staff wedi cymryd rhan mewn bron 30 o weithgorau allanol

## Enillwyd 4 gwobr

## Derbyniodd 220 o achosion llawn* sylw gan y tîm Ymchwiliadau a Chyngor

## Cyhoeddwyd 215 o erthyglau yn y wasg

## Cafwyd 271,000 o ymweliadau i www.complantcymru.org.uk

## Nifer y milltiroedd y bu'r Comisiynydd yn eu teithio: gormod i'w cyfri!

*

Achos llawn yw pan fyddwn ni'n parhau i chwarae rhan ac yn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau canlyniad priodol.

# Dan y Sbotolau

**Keith Towler**
**Comisiynydd Plant Cymru**

**Ers dod yn Gomisiynydd Plant Cymru ar 1 Mawrth 2008, mae Keith Towler wedi cwrdd ag o leiaf un grŵp o blant a phobl ifanc bob wythnos. Yn ystod ei ymweliadau ag amrywiol leoliadau ledled Cymru, mae ei gynulleidfa'n aml yn ei holi am ei swydd, ei dîm, ac weithiau'n gofyn cwestiynau mwy personol! Dyma ddetholiad o'r cwestiynau mwyaf poblogaidd sy'n cael ei gofyn iddo'n aml:**

## Beth yw 'comisiynydd plant'?

Yn 2001, penderfynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod angen pencampwr plant ar Gymru. Fe wnaethon nhw benodi Comisiynydd Plant cyntaf y Deyrnas Unedig gyda help plant a phobl ifanc, a'r prif nod oedd diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru. Des i'n ail Gomisiynydd Plant y wlad yn 2008, ac rwy'n gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru sydd o dan 18 oed, neu 25 oed os ydyn nhw wedi bod yn derbyn gofal. Rwy'n gweithio gyda'r tîm i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwrando ar bob plentyn a pherson ifanc. Byddwn ni'n gofalu bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am fywydau plant a phobl ifanc yn cymryd eu barn a'u syniadau o ddifri ac yn gweithredu.

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol**

Y peth gorau am y swydd yma yw bod yna ddim 'diwrnod nodweddiadol'. Un diwrnod gallwn i fod ar gefn ceffyl gyda phlant sy'n derbyn gofal, yn cael pob math o bethau wedi'u rhwbio mewn i'm siwt mewn cylch chwarae, ac yn ymweld â gardd Blue Peter, cyn cwrdd â Chabinet Llywodraeth y DU, cymeradwyo ein hymateb i ymgynghoriad ar ymchwiliad gan un o Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael cyfweliad gan newyddiadurwr am bwnc perthnasol. Yr amrywiaeth yma sy'n gwneud fy swydd yn un o'r rhai gorau yng Nghymru.

**Pam fod rhaid i blant gael hawliau?**

Mae rhai pobl yn meddwl bod dim angen hawliau ar blant. Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod Cymru'n hyrwyddo hawliau dynol plant a phobl ifanc, er enghraifft yr hawl i gael addysg, yr hawl i gael eu hamddiffyn, a'r hawl i oroesi a datblygu'n iach. Ein swyddogaeth ni yw gwneud yn siŵr bod pobl yn meddwl am hawliau plant a phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt.

**Beth yw hawliau plant?**

Siarter ryngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – CCUHP – sy'n cyflwyno'r safonau gofynnol ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maent yn byw. Mae CCUHP yn cynnwys 54 o erthyglau, gyda 42 o hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r lleill yn trafod sut dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu derbyn eu hawliau.

**Sut gall eich gwasanaeth cyngor a chefnogaeth helpu plant a phobl ifanc?**

O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd fy swyddfa, gallaf roi cyngor a gwybodaeth i blant a phobl ifanc, yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n pryderu am hawliau a lles plentyn, neu blant yn gyffredinol. Rydw i hefyd yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, gan eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau; archwilio achosion lle gallai gwasanaethau o bosib fod wedi methu â gweithredu er lles plentyn neu blant, a chynorthwyo plant a phobl ifanc – gan gynnwys darparu cymorth ariannol a chynrychiolaeth mewn achosion cyfreithiol – nad yw eu hawliau wedi cael eu parchu.

**Beth oedd eich prif flaenoriaeth ar gyfer 09/10?**

Blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau ein bod ni'n gallu cyfrannu at newid systemig ar gyfer plant a phobl ifanc – mae gennym ni bellach gynllun pum mlynedd sy'n amlinellu ein nodau a sut byddwn ni'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc. Bues i hefyd yn adolygu strwythur fy swyddfa ac yn penodi dau swyddog uwch newydd – Prif Swyddog Gweithredol a Phennaeth Gweithrediadau – i helpu i roi ein cynllun pum mlynedd ar waith.

**Pa bethau allweddol ry'ch chi'n credu sydd eisiau eu taclo?**

Fy ngweledigaeth yw gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac ar eu rhan i gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol yn eu bywydau. Mae llawer o bethau yr ydym am eu cyflawni, ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu. Byddaf i'n sefyll dros bob plentyn a pherson ifanc, ac yn arbennig dros aelodau mwyaf diamddiffyn ein cymdeithas. Rwy'n pryderu'n arbennig am blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc ag anableddau, plant a phobl ifanc sipsiwn a theithwyr a'r rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Byddaf yn codi llais am yr anghydraddoldebau maen nhw'n eu hwynebu, am y gwahaniaethu rydym ni'n ei weld yn erbyn plant a phobl ifanc, ac am hawliau plant, gan helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP.

**Wrth edrych yn ôl ar eich cyfnod o saith mlynedd yn y swydd yn 2015, beth rydych chi'n credu byddwch chi'n fwya balch ohono?**


Gobeithio y byddaf wedi haeddu'r ymddiriedaeth fu gan blant a phobl ifanc ynof fi i hyrwyddo materion ar eu rhan. Byddwn i hefyd yn hoffi edrych yn ôl ar gyfnod o saith mlynedd a welodd agweddau'r cyhoedd at blant a phobl ifanc yn gwella, a lle roedd gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn ddealltwriaeth wirioneddol o hawliau plant a sut gall rôl y Comisiynydd helpu i ddatrys gwahaniaethu ac anghydraddoldeb lle mae'n bodoli.

**Pa mor hen ydych chi?!**

51, diolch am atgoffa fi!

# Cipolwg y tu ôl i'r llenni

**Tîm ydym ni sy'n gweithredu fel pencampwyr plant a phobl ifanc ar draws Cymru, yn gweithio o swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn. O 1 Medi 2009, bu strwythur newydd ar waith sy'n cydnabod bod pum swyddogaeth glir yn ofynnol yn y swyddfa i gyflawni mandad Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r rhain yn rhyng-ddibynnol ac yn cydweithio ar ffurf timau prosiectau a themâu i gyflawni'r rhaglen waith:**


Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
Gwerthuso Polisi a Gwasanaethau a Materion Cyhoeddus
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Ymchwilio a Chyngor
Cyfathrebu
Gwasanaethau Corfforaethol

Rydym yn gwrando ar farn a phrofiadau plant a phobl ifanc fel bod modd i ni eu cynrychioli a sefyll ar eu rhan, gan sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn glir.

Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn, yn medru cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau, a chael gwasanaethau wedi'u darparu ar eu cyfer i'w helpu i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Mae ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn ceisio datrys y problemau unigol mae plant a phobl ifanc yn dod â nhw atom ni mewn ffordd gyflym ac effeithiol, boed hynny trwy eu cyfeirio at sefydliad mwy addas neu trwy ddelio â'r mater ein hunain. Wrth drafod achos, rydym bob amser yn edrych ar y materion ehangach a'r cyfleoedd dysgu ar gyfer ein partneriaid, o fewn yr ardal leol dan sylw a hefyd ledled Cymru.

Mae'r gwasanaeth ar gael i blant a phobl ifanc dderbyn cyngor a chefnogaeth unrhyw bryd yn ystod oriau swyddfa.

Mae gennym bedwar swyddog yn y tîm Ymchwiliadau a Chyngor sydd wedi'u lleoli mewn dwy swyddfa. Mae ganddynt gyfoeth o brofiad ac arbenigedd, ac maent yn teithio ledled Cymru i gwrdd â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn gwrando arnynt, eu cefnogi ac eiriol ar eu rhan.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gallu cofnodi achosion a sefydlu darlun cywir o'r materion sy'n effeithio ar y plant a'r bobl ifanc sy'n cysylltu â ni ledled Cymru. Defnyddir yr wybodaeth hon i helpu i lunio'n rhaglen waith at y dyfodol, ac rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Gall pobl gysylltu â ni mewn sawl ffordd, yn cynnwys e-bost, llythyr, rhadffon a negeseuon testun neu drwy ymweld â'n swyddfeydd.

**Sut wnaeth bobl gysylltu â ni llynedd:**

- **ffôn (279)**
- **ebost (88)**
- **llythyron (67)**
- **neges destun (15)**
- **wyneb yn wyneb (26)**

Er ein bod yn annibynnol ar y llywodraeth, dydyn ni ddim yn gweithio ar ein pennau ein hunain. Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod Cymru'n wlad lle caiff plant a phobl ifanc eu parchu, eu gwerthfawrogi, a lle cânt wrandawiad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel a hapus. Eleni'n unig, cyfeiriodd ein gwasanaeth cyngor a chefnogaeth 255 o achosion at sefydliadau eraill. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau allweddol, megis CAFCASS Cymru, i ddatblygu Memoranda o Ddealltwriaeth, a byddwn yn datblygu eraill gyda chyrff megis Comisiwn Pobl Hŷn Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2010/11.

# Blwyddyn ym mywyd Comisiynydd Plant Cymru

**Dyma rai enghreifftiau o ddyddiadur y Comisiynydd:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ebrill** | **24:** | **Cynhadledd Lles** |
| | **29:** | **Dathliad Teuluoedd Ifanc**<br>**Grŵp Trawsbleidiol ar Ddelio mewn Pobl –** Trafodaeth gyda swyddog ar secondiad gyda'r Eglwys yng Nghymru ynghylch eu hadolygiad pwysig o achosion o gam-drin plant Secondiwyd gweithiwr cymdeithasol arbenigol annibynnol o'm swyddfa i er mwyn helpu'r Eglwys yng Nghymru i gynnal adolygiad annibynnol gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc. Bydd yr adolygiad yn archwilio unrhyw honiadau neu amheuon ynghylch cam-drin plant yn y gorffennol. Disgwylir i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi yn 2010. |
| | **30:** | **Ymweliad â Chanolfan y Ffenics (tlodi plant)**<br>**Y Mesur Plant a Theuluoedd** |
| **Mai** | **5:** | **Adolygiad Achos Difrifol Bro Morgannwg** |
| | **8:** | **Ymweliad ag ysgol, Ysgol Gynradd Sirol Llandeilo** |
| | **12:** | **Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau, Llundain** |
| | **27:** | **Eisteddfod yr Urdd –** Un yn unig o'n ffyrdd o gysylltu â phlant a phobl ifanc yw Eisteddfod yr Urdd. Rydym yn ceisio estyn allan at holl blant a phobl ifanc ein gwlad, trwy ymweld ag ysgolion a grwpiau i roi gwybod iddynt am y Comisiynydd a CCUHP ac i roi cyfle iddynt ddweud wrthym ni beth sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym ni hefyd yn casglu barn plant a phobl ifanc trwy Atebnôl ar ein gwefan. Rydym ni'n gofyn cwestiynau Atebnôl am wahanol bethau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth yw eu barn, fel bod modd i ni gynnwys eu barn a'u syniadau yn ein gwaith. Rydym wedi defnyddio adborth a gwybodaeth a gasglwyd trwy Atebnôl mewn nifer o'n hymatebion ymgynghori, gan gynnwys yr un ar y cod ymddygiad teithio newydd i ddysgwyr sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. |
| **Mehefin** | **1:** | **Cyfarfod gydag OFCOM a Media Wales am ddelweddau cadarnhaol** |
| | **3:** | **Cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg** |
| | **8:** | **Cyfarfod gyda BBC Wales** |
| | **10:** | **Lansio adroddiad Gofalwyr Ifanc yn y Senedd** |
| | **23:** | **Cynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid, Gwynedd** |
| | **26:** | **Croesawu Tam Baillie, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, i'n swyddfa yn Abertawe** |

| | | |
|---|---|---|
| | **30:** | **Dathliad Llysgenhadon De Cymru –** Cynllun rydym ni'n ei gynnal mewn ysgolion cynradd ledled Cymru yw'r Llysgenhadon. Cafodd y cynllun ei ehangu eleni, a bellach rydym yn ymfalchïo bod gennym dros 100 o lysgenhadon. Mae dau blentyn yn cael eu hethol yn llysgenhadon gan eu cyfoedion. Mae eu prif ddyletswyddau'n cynnwys dweud wrth blant yn eu hysgol am y Comisiynydd a CCUHP. Bu adroddiad diweddar gan Estyn ar un o ysgolion y cynllun yn cydnabod rôl bwysig y llysgenhadon yn yr ysgol ei hun ac o fewn cylch ehangach. Mae'n dweud: "Mae dau ddisgybl sy'n llysgenhadon yn dangos dealltwriaeth neilltuol o'u rôl o fewn yr ysgol ac ar lefel Cymru gyfan." |
| **Gorffennaf** | **1:** | **Dathliad Llysgenhadon Gogledd Cymru** |
| | **2:** | **Prosiect Pobl Ifanc Ddigartref Isallt** |
| | **22:** | **Tîm Gweithredol Ymddiriedolaeth Abertawe Bro Morgannwg** |
| | **29:** | **Cwrdd â Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.** |
| **Awst** | **1-7:** | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Bala** |
| | **27:** | **Diwrnod recriwtio** |
| **Medi** | **9:** | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |
| | **10:** | **Tŷ Hafan** |
| | **13:** | **Cynhadledd Bascpan** |
| | **15:** | **Meri Huws, Bwrdd yr Iaith Gymraeg** |
| | **22:** | **Grŵp Ecsbloetio Plant** |
| | **23:** | **Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant, Paris** |
| | **30:** | **Cyfarfod gyda Mae Plant Anabl yn Bwysig** |
| **Hydref** | **1:** | **Cynhadledd Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion** |
| | **7:** | **Cyfarfod gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU** |

| | | |
|---|---|---|
| Hydref | 12: | Cyfarfod gyda gwirfoddolwyr gogledd Cymru |
| | 14: | Cyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru am y Mesur Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) |
| | 15: | AGGCC am Adolygu Achosion Difrifol |
| | 22: | Fforwm Ieuenctid Caerffili |
| Tachwedd | 10: | Lansio Adolygiad Blynyddol 08l09 |
| | 18: | Digwyddiad CCUHP yn Ysbyty'r Plant |
| | 20: | Diwrnod Rhyngwladol y Plentyn l Lansio Cynllun Gweithredu CCUHP Llywodraeth Cymru |
| | 23: | Rhwydwaith Comisiynwyr Plant Prydain ac Iwerddon (BINOCC), Dulyn |
| | 25: | Cyfarfod Llysgenhadon De Cymru |
| | 27: | Cyfarfod Llysgenhadon Gogledd Cymru |
| Rhagfyr | 5: | Cyfarfod olaf ein Grŵp Ymgynghorol |
| | 7: | Cynhadledd Tros Gynnal |
| | 10: | Ymweliad â Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath |
| | 14: | Noson gyflwyno yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman |
| | 15: | Ymweliad â'r Ganolfan sy'n delio gydag Ecsbloetio Plant ac Amddiffyniad Ar-lein, Llundain |
| Ionawr 2010 | 7: | Cyfarfod gyda'r Urdd |
| | 15: | Ymweld ag Ysgol Feithrin Grangetown |
| | 20: | Cyfarfod gyda Voices from Care |
| | 28: | Cyfarfod gyda'r Ddraig Ffynci |

| | | |
|---|---|---|
| **Chwefror** | **1:** | **Cyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd i drafod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)** |
| | **24:** | **Yn y Senedd i drafod y Mesur Gofalwyr** |
| | **25:** | **Yn y Senedd ar gyfer lansio adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyfiawnder Ieuenctid** |
| **Mawrth** | **1:** | **Lansio proffil ar Twitter: @complantcymru –** Yn ogystal â defnyddio sianeli traddodiadol, eleni fe wnaethon ni ymateb i'r oes ddigidol trwy lansio'n proffil ein hunain ar Twitter. |
| | **3:** | **Symposiwm chwarae y pedair gwlad** |
| | **8:** | **Cyfarfod Panel Adolygu Cyfiawnder Teuluol** |
| | **16:** | **Ymweliad ag Ysgol Gymunedol Twynyrodyn** |
| | **17:** | **Ymweliad â San Steffan i gwrdd â'r Aelodau Seneddol** |
| | **18:** | **Uwchgynhadledd Diogelu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |
| | **24:** | **The One Show ar BBC One i drafod y ddarpariaeth ar gyfer cadeiriau olwyn yng Nghymru –** Trwy ddefnyddio sianeli traddodiadol i gyfathrebu â phobl – papurau newydd, y teledu a'r radio – sicrhawyd dros 215 o erthyglau newyddion a 61 munud o ddarllediadau. Creodd hyn dros 21 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am Gomisiynydd Plant Cymru. |

## Rhai ffeithiau allweddol am Gymru

Y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant

Cartref i 700,000 o blant a phobl ifanc

Mae un o bob tri ohonynt yn byw mewn tlodi

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sail ar gyfer ei holl waith dros blant a phobl ifanc, ac mae wedi crynhoi Confensiwn y CU yn saith nod craidd.

# Sut rydym ni wedi helpu rhai o blant a phobl ifanc ein gwlad

**Eleni codwyd 624 o broblemau gwahanol gyda ni o 475 o achosion gwahanol* ac o'r rheiny fe ddaeth 220 yn achosion llawn. Roeddent yn cynnwys y canlynol:**

| Mater: | Nifer yr achosion: |
|---|---|
| Cyngor | 49 |
| Bwlio | 18 |
| Amddiffyn Plant | 20 |
| Addysg | 165 |
| Yr Amgylchedd | 45 |
| Cyfraith Deuluol | 58 |
| Iechyd | 49 |
| Tai | 12 |
| Mewnfudo | 37 |
| Cyfreithiol | 10 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 120 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 41 |

*

Achos yw pan fydd rhywun yn cysylltu â ni am rywbeth sydd wedi digwydd, neu rywbeth nad ydyn nhw'n hapus yn ei gylch. Gallai achos ymwneud ag un person ifanc neu lawer ohonynt, a gallai ymwneud ag un peth neu nifer o faterion.

**Addysg yw'r prif faes y mae pobl yn cysylltu â ni yn ei gylch o hyd, gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Chyfraith Deuluol yn dilyn. Mae'r achosion addysg yn ymwneud yn bennaf â bwlio, cludiant i'r ysgol, ad-drefnu ysgolion a diffyg mynediad i wasanaethau addysg arbenigol, tra bod yr achosion gwasanaethau cymdeithasol fel arfer yn ymwneud â diffyg mynediad i wasanaethau, amddiffyn a diogelu plant, trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion neu o ardal un awdurdod lleol i un arall, a maethu a mabwysiadu. Mae ein hachosion iechyd a chyfraith deuluol yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, o ddarparu gwasanaethau i rannu gwybodaeth a chydsyniad, i waith mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.**

Bu cynnydd sylweddol hefyd yn yr achosion yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid a'r amgylchedd. Eleni rydym wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd mewn amrywiol sefydliadau i droseddwyr ifanc, a byddai hynny'n helpu i esbonio'r cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau. Mae achosion yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion sy'n cynnwys llety, hyfforddiant cyflogaeth ac addysg, a chyswllt â Thimau Troseddau Ieuenctid.

**Astudiaeth Achos**

Cysylltodd gofalwr maeth plentyn ag anableddau â ni. Ni allai'r plentyn symud i'r ysgol uwchradd gyda'i ffrindiau oherwydd nad oedd yr awdurdod lleol wedi gwneud yr addasiadau angenrheidiol i'r ysgol. O ganlyniad, roedd yn rhaid i'r plentyn deithio i ysgol oedd yn llawer pellach i ffwrdd. Fe wnaethom ni gynghori'r gofalwr maeth ynghylch cyfrifoldebau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'u rhoi mewn cysylltiad â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ar ben hynny, dywedodd yr awdurdod lleol wrth y gofalwr maeth na allent gwyno am y sefyllfa am nad oedd ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Fe wnaethom ni roi cyfarwyddyd priodol i'r gofalwr maeth i ddangos nad oedd hyn yn gywir, a hefyd rhoi manylion iddynt ynghylch y weithdrefn gwynion berthnasol. Gyda'r wybodaeth hon llwyddodd y gofalwr maeth i herio'r awdurdod lleol, a gytunodd i wneud yr addasiadau angenrheidiol a fyddai'n galluogi'r plentyn i fynychu'r ysgol uwchradd flwyddyn yn ddiweddarach. Yn ogystal â bod o fudd i'r plentyn yma, roedd hynny o fudd hefyd i nifer o blant eraill ag anableddau yn yr ardal, gan eu bod yn medru mynd i'r ysgol uwchradd honno gyda'u ffrindiau.

**Astudiaeth Achos**

Cysylltodd mam yr oedd ei merch yn dioddef o broblemau iechyd meddwl â ni oherwydd eu bod wedi aros 13 mis am apwyntiad ailasesu gydag ymgynghorydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Roedd yr oedi wedi arwain at broblemau disgyblaeth parhaus, ac roedd y plentyn wedi cael ei gwahardd o'r ysgol nifer o weithiau. Roedd y fam yn teimlo nad oedd meddyginiaeth ei merch yn effeithiol bellach o ran ei helpu i reoli ei phroblemau iechyd meddwl. Roedd hi wedi cyrraedd pen ei thennyn, heb wybod ble i droi.

Fe wnaethon ni gysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ran y plentyn. Cafodd ei gweld gan arbenigwr CAMHS o fewn chwe wythnos i'n galwad am ailasesu.

**Astudiaeth Achos**

Fe wnaeth mam gysylltu â ni oherwydd ei bod hi'n pryderu am benderfyniad ysgol i beidio â gadael i'w phlentyn fynd ar daith gyda'r ysgol oherwydd anableddau'r plentyn. Roedd y penderfyniad wedi cael ei wneud heb unrhyw drafodaeth gyda'r rhieni, ac roedd wedi cael effaith negyddol sylweddol ar y plentyn.

Fe wnaethon ni drafod yr amrywiol opsiynau oedd ar gael i'r fam, yn cynnwys ei hawl i gwyno i'r ysgol. Hefyd fe wnaethon ni drosglwyddo gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn cynnwys gwybodaeth am hawliau'r plentyn o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

**Astudiaeth Achos**

Cysylltodd gweithiwr iechyd proffesiynol â ni am fachgen ifanc oedd yn dioddef o gyflwr iechyd difrifol ac a oedd yn disgwyl llawdriniaeth agored ar y galon. Mynegodd y gweithiwr proffesiynol bryderon ynghylch cyflwr cartref y teulu, a dweud bod swyddogion tai'r awdurdod lleol yn gwrthod helpu. Aethon ni i'r tŷ i gwrdd â'r teulu, a gweld yr amodau anodd drosom ein hunain, yn cynnwys ôl lleithder ar y waliau, y gwelyau, y carpedi, a dillad a theganau meddal y plentyn. Roedd y plentyn i fod i gael llawdriniaeth yn fuan iawn, ac roedd cynlluniau ar waith iddo ddychwelyd i gartref y teulu i ymadfer. Fe wnaethon ni gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ar ran y plentyn, a threfnwyd i'r teulu symud tŷ ar frys cyn y llawdriniaeth.

**Astudiaeth Achos**

Cysylltodd gweithiwr proffesiynol â ni i ofyn cyngor am dad-cu a mam-gu a oedd wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb o ofalu am eu hwyrion. Roedd diffyg lle addas yn eu cartref presennol yn golygu bod y plant yn rhannu ystafelloedd gydag aelodau'r teulu. Fe wnaethon ni gyflwyno sylwadau ar ran y tad-cu a'r fam-gu, ac o ganlyniad cynigiwyd grantiau priodol a chymorth i'r teulu.

Cysylltodd rhiant â ni ar ôl gweld Keith yn annerch cynulleidfa mewn seremoni wobrwyo, i weld allen ni helpu. Dyma ei ymateb e i'n gwaith:

**"Rydw i wedi bod yn brwydro ers cryn amser i sicrhau help ar gyfer fy merch, ac rwy'n teimlo bod heddiw'n fuddugoliaeth fawr i'n teulu ni. Rydw i mor ddiolchgar eich bod wedi cymryd ein pryderon o ddifri ac wedi helpu i sicrhau canlyniad mor wych. Ces i fy ysbrydoli i gysylltu â chi ar ôl gweld y Comisiynydd mewn seremoni wobrwyo ddiweddar. Rydw i mor ddiolchgar."**

**Astudiaeth Achos**

Cawson ni lythyr gan dad bachgen ifanc oedd ag anghenion meddygol cymhleth. Roedd hefyd yn ddall, yn methu siarad, ac mewn cadair olwyn. Roedd y tad yn pryderu am y diffyg gofal arbenigol yn y gymuned, ac yn pryderu am effaith hyn ar blant eraill yn yr ardal oedd ag anghenion meddygol tebyg i'w fab.

Fe wnaethon ni gwrdd â'r rhieni a'r plentyn, gan drafod effaith y diffyg gofal arbenigol ar y plentyn, a hefyd y materion ehangach a'r risg i blant eraill a allai fod o dan anfantais neu gael eu niweidio gan y diffyg cymorth arbenigol yn y gymuned.

Cawson ni gyfarfod gyda Staff Gweithredol y Bwrdd Iechyd am hyn, a rhoddwyd sylw i'r materion ar unwaith. Diwallwyd anghenion meddygol y plentyn, a rhoddwyd sylw hefyd i ddarparu cymorth meddygol ehangach yn y gymuned ar gyfer plant ag anghenion meddygol cymhleth tebyg.

Wrth ymateb i'r camau y gwnaethon ni eu cymryd, dywedodd y tad: "Roedd yn rhyddhad gallu troi at Gomisiynydd Plant Cymru".

**Astudiaeth Achos**

Cysylltodd rhiant bachgen ifanc â ni oherwydd ei fod wedi aros 12 mis am apwyntiad pediatrig arbenigol, ac roedd newydd gael clywed bod yr ymgynghorydd wedi gadael ei swydd, y byddai rhestr aros newydd, ac oedi am gyfnod hwy fyth. Dywedodd y rhiant y byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y bachgen, gan fod angen mawr am help arno, ac y byddai hefyd yn effeithio ar o leiaf 80 o blant eraill yn yr un ardal.

Roedd clywed hyn yn destun pryder i ni, ac fe wnaethon ni gysylltu â Phrif Swyddog Gweithredol a Phennaeth Pediatreg y Bwrdd Iechyd. Fe wnaethon ni ofyn hefyd am asesiadau effaith ysgrifenedig ar gyfer amserau aros gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn fuan wedi i ni ymwneud â'r achos, penderfynwyd rhyddhau cyllid a chyflogi ymgynghorydd newydd ar unwaith.

Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol wrth dad-cu a mam-gu a oedd wedi helpu i gadw eu hwyrion rhag gorfod derbyn gofal trwy ddarparu cartref diogel ar eu cyfer fod eu cartref yn rhy fach, ac y byddai'n rhaid i'r teulu symud i dŵmwy. Roedd baich ariannol y symud yn ergyd fawr i'r teulu, ac wrth chwilio am gymorth ariannol, dechreuodd y ffioedd cyfreithiol gynyddu. Fe wnaethon nhw gysylltu â ni, ac fe wnaethon ni eu cyfeirio at gyfreithiwr arbenigol:

**"Dim ond ar hap y daeth Mick, a oedd wedi cyrraedd pen ei dennyn, ar draws rhif ffôn swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, a thrwy help y swyddfa honno cafo**

(Dyfyniad o: www.walesonline.co.uk)

# Adolygiad o'r materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

**Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn sail ar gyfer ei holl waith dros blant a phobl ifanc ac yn sail ar gyfer ei saith nod craidd i blant yn y ddogfen Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau. Mae'r nodau hyn hefyd yn berthnasol i'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc newydd yn ardal pob awdurdod lleol. Unwaith eto rwyf wedi defnyddio'r saith nod craidd yma yn dempled ar gyfer craffu ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu agenda bolisi Llywodraeth Cymru a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant. Nodir hefyd welliannau y mae angen eu gwneud.**

Roedd hon yn flwyddyn arwyddocaol i hawliau plant yng Nghymru. Gwelsom gynigion yn cael eu llunio i roi dyletswydd ar holl Weinidogion Llywodraeth Cymru i ystyried CCUHP wrth wneud penderfyniadau strategol. Gwelsom hefyd gyhoeddi cynllun gweithredu cyntaf y wlad ar argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008. Yr enw ar y rhain yw'r Casgliadau Terfynol.

Byddaf yn disgwyl i Weinidogion Llywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad i symud ymlaen gyda'r rhain ac yn annog eraill i feddwl am eu cyfrifoldeb i helpu i wneud newidiadau cadarnhaol a pharhaol i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Cynllun Gweithredu CCUHP

**Ym mis Tachwedd 2009, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu – 'Gwneud pethau'n iawn' – ar Gasgliadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig 2008. Dyma'r cynllun gweithredu cyntaf o'i fath yng Nghymru, a byddaf yn ei ddefnyddio i helpu i adolygu effeithiolrwydd y Llywodraeth wrth gyflawni'r newidiadau a argymhellwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o'r 16 pwynt yn bwysig, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut bydd y cynllun hwn yn gwneud newidiadau gwirioneddol i fywydau plant yn ystod y pum mlynedd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud a'n bod yn medru arddangos cynnydd gwirioneddol o ran cyflawni'r Casgliadau Terfynol yn 2014 pan fydd angen cyflwyno'r adroddiad nesaf.**

### Mesur Arfaethedig Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n archwilio'r posibilrwydd o fewnosod egwyddorion CCUHP yng nghyfraith Cymru. Ym mis Mawrth 2010, lansiwyd ymgynghoriad ynghylch cyfraith Gymreig arfaethedig, ac roeddwn i'n falch o fedru ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi galw ar Lywodraethau yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori'r safonau rhyngwladol hyn yn eu cyfraith ddomestig. Os daw'r gyfraith hon i rym yng Nghymru, fe fydd yn gosod cynsail bwysig yn y Deyrnas Unedig wrth ymwreiddio'r CCUHP mewn deddfwriaeth. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n llunio cyfraith a fydd yn cael effaith wirioneddol ar fywydau plant Cymru, ac na fydd yn troi'n broses ticio blychau, ond yn hytrach yn golygu bod y Confensiwn yn dod yn rhan bwysig o sut caiff polisi ei ddatblygu a'i weithredu yng Nghymru.

## Nod 1
## Cael dechrau'n deg mewn bywyd a'r sylfaen orau bosib ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol

**Cyllidebau**

Y llynedd fe wnes i gydnabod cynnydd Llywodraeth Cymru o ran nodi'r gwariant cyffredinol ar blant, ond rwy'n pryderu mai cynnydd pellach cyfyngedig a welwyd yn y maes hwn. Gan ei fod yn un o'r prif gasgliadau terfynol gan y Pwyllgor yn 2008, roeddwn wedi rhagweld y byddai mwy o gynnydd yn y maes hwn. Mae Pwyllgor CCUHP yn pwysleisio pwysigrwydd cyllidebu ar gyfer plant wrth ddweud:

"…that the lack of consistent budgetary analysis and child rights impact assessment makes it difficult to identify how much expenditure is allocated to children across the State party and whether this serves to effectively implement policies and legislation affecting them."

Cysylltwyd â mi nifer o weithiau eleni ynghylch toriadau i'r gyllideb, gan gynnwys lleihau'r ariannu ar gyfer addysg ysgol arbennig ôl-16, ac rwyf wedi galw am sicrhau bod cyllidebu ar gyfer plant yn ddangosydd allweddol wrth baratoi ar gyfer mesur canlyniadau o'r strategaethau tlodi plant gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae'r setliadau ariannol cyfredol a'r rhai sydd i ddod yn golygu bod mwy angen cyflawni cyllidebu ar gyfer plant ar sail hawliau. Dim ond trwy wneud hynny y gallwn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu'n llawn, a bod y plant mwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.
Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebu ar gyfer Plant yn gyfraniad adeiladol at y drafodaeth, ac rydym yn dal i ddisgwyl ymateb llawn iddo gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb interim, nododd Llywodraeth Cymru fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu, ac y dylai gyflwyno adroddiad yn fuan iawn ar sut bydd adrannau'r Llywodraeth yn ceisio ymateb i'r angen am gyllidebu ar gyfer plant. Rwy'n croesawu'r datblygiad hwn, ond mae'n bwysig bod yr agenda hon yn cael ei symud ymlaen yn brydlon – rhaid osgoi oedi pellach.

**Cynllun Gweithredu Magu Plant**

Mae argymhellion y Cynllun Gweithredu Magu Plant a'r pwyslais a roddwyd ar ddulliau cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu, ynghyd â rhaglenni ymyrraeth gynnar, yn strategaeth bell-gyrhaeddol ac ataliol i roi newid cadarnhaol ar waith yn gynnar i deuluoedd.

Fodd bynnag, rwy'n dal i alw am newid ar frys yn y sefyllfa bresennol o ran cosb gorfforol, ac am gadw'r mater hwn yn flaenoriaeth uchel ar bob un o'n hagendâu, ynghyd â diogelu rhaglenni cymorth i'r teulu ac ymyrraeth gynnar.

**>>>**

## Gofalwyr Ifanc

Penllanw ymchwil genedlaethol uchelgeisiol a wnaed ar fy rhan gan Ofalwyr Powys yw 'Bywyd Llawn Gofal', a lansiwyd yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Roeddwn i'n pryderu nad yw llawer o ofalwyr ifanc, sef dros ddau y cant o'r holl blant o dan 16 oed yng Nghymru, yn gallu mwynhau eu hawliau o dan CCUHP. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n hanfodol, felly, rhoi llais i'r bobl ifanc hyn, a gweithio'n agos gyda nhw i adeiladu proffil cliriach o sut maen nhw'n byw eu bywydau.

Casglodd tîm y prosiect, dan arweiniad rhai oedd yn ofalwyr ifanc eu hunain, farn a safbwyntiau gan 19 o 22 prosiect gofalwyr ifanc Cymru er mwyn nodi'r prif rwystrau mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu o ran gwireddu'r hawliau a gyflwynwyd yn CCUHP, yn cynnwys eu hawl i addysg, i ymlacio a chwarae, ac i gael parchu eu barn.

Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

— **Teimlai 37% o ofalwyr ifanc nad oedd eu barn yn cael ei pharchu gan eraill;**

— **Roedd 52% wedi teimlo eu bod yn methu ymdopi yn ystod yr wythnos ddiwethaf;**

— **Nid oedd 73% o'r rhai oedd yn gweinyddu meddyginiaeth erioed wedi derbyn unrhyw hyfforddiant.**

Mae argymhellion yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

— **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr angen am Strategaeth Gofalwyr Ifanc Genedlaethol**

— **Dylai awdurdodau lleol asesu anghenion gofalwyr ifanc, heb ddisgwyl iddynt wneud tasgau amhriodol.**

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) Gofalwyr* gymeradwyaeth Frenhinol. Estynnodd hyn gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lunio cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru (sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau) yn ymwneud â Gofalwyr, ac roeddwn yn falch o weld y byddai hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gofalwyr ifanc, gyda chyfle i ymateb i lawer o'r materion a godwyd yn 'Bywyd Llawn Gofal'.

Y Mesur cyntaf a gyflwynwyd wedi'r LCO oedd Mesur Strategaethau Gofalwyr Arfaethedig (Cymru). Ei ddiben oedd cyflwyno gofyniad newydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaethau ar y cyd yng nghyswllt gofalwyr.

(*Math o ddeddfwriaeth yw LCOs sy'n trosglwyddo pwerau penodol o Senedd y DU i'r Cynulliad. Os caiff yr LCO ei gymeradwyo gan y Cynulliad, mae'n rhaid wedyn iddo gael ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ac ar ôl hynny gan y Frenhines. Yn sgîl hynny bydd gan y Cynulliad fwy o bwerau i lunio Mesurau mewn rhai ardaloedd o bolisi, sy'n rhannau o'r gyfraith.)

Byddai'r strategaethau'n cynnwys gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ac ar gyfer ymwneud effeithiol yr awdurdodau dan sylw â gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr neu'r person sy'n derbyn gofal neu ar eu cyfer. Rhoddais i dystiolaeth fel rhan o'r craffu deddfwriaethol ar y Mesur arfaethedig hwn, a phwysleisiais fod rhaid i faterion gofalwyr ifanc dderbyn sylw yn y strategaethau hyn. Rwy'n gobeithio gweld gofalwyr ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses, a'u lleisiau'n cael eu clywed wrth ddatblygu'r strategaethau gofalwyr a chanllawiau eraill cysylltiedig, a bod darparwyr allweddol megis addysg yn chwarae eu rhan i ddileu'r rhwystrau mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu bob dydd o'u bywydau.

Ar lefel y Deyrnas Unedig mae gen i ddiddordeb hefyd mewn gweld beth fydd goblygiadau'r Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer gofalwyr ifanc. Dylai'r gyfraith amddiffyn pob gofalwr, yn cynnwys gofalwyr ifanc, rhag gwahaniaethu uniongyrchol nac aflonyddu oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Y rheswm am hynny yw oherwydd y byddant yn gysylltiedig â rhywun sydd wedi'i amddiffyn gan y gyfraith oherwydd eu hoedran neu eu hanabledd. Byddai'r gyfraith yn berthnasol pan fyddai gofalwyr yn siopa am nwyddau, yn gofyn am wasanaethau, yn derbyn gwasanaethau, a phan fyddent yn defnyddio cyfleusterau fel cludiant cyhoeddus. Rwy'n gobeithio gweld hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein gofalwyr ifanc.

## Nod 2
## Cael mynediad i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, yn cynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol.

**Gwrando a Dysgu**

Ar 5 Hydref 2009, fe wnes i lansio fy nghyhoeddiad 'Gwrando a dysgu... y stori iawn', a luniwyd o ganlyniad i weithio gyda phlant a phobl ifanc i nodi arfer effeithiol yn y dosbarth. Roedd yn cyd-ddigwydd â nifer o ddatblygiadau strategol ym myd addysg, yn cynnwys y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion sy'n rhoi lles plant wrth wraidd popeth ym myd addysg. Nododd plant naw peth allweddol mae athrawon yn eu gwneud sy'n newid eu profiad fel dysgwr, yn cynnwys: "Cais iddynt wrando a chymryd ein barn o ddifri" ac "Mae athrawon da yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol".

Mae'n eglur i mi fod plant a phobl ifanc yn arbenigwyr yn eu dysgu eu hunain a'u bod yn deall elfennau o'r hyn sy'n creu profiad effeithiol yn y dosbarth. Rhannwyd negeseuon allweddol o 'Gwrando a Dysgu' gydag amrywiol randdeiliaid, yn cynnwys undebau athrawon ac Estyn, ac felly mae'n galonogol gweld bod Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn – sy'n dod i rym ym mis Medi 2010 – yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfranogiad disgyblion ac yn helpu i gryfhau ymwneud dysgwyr ag arolygiadau. Rwy'n edrych ymlaen at drafod gyda disgyblion o fis Medi 2010 ymlaen a yw'r dull newydd hwn wedi cael unrhyw effaith arnynt.

Ar hyd y flwyddyn rwyf wedi ymweld â chryn nifer o ysgolion, ac mae brwdfrydedd y disgyblion dros gyfranogi wedi creu argraff arnaf. Rwyf hefyd wedi clywed gan eu hathrawon am effaith gadarnhaol cyfranogiad y disgyblion ar wneud penderfyniadau mewn ysgolion. Roeddwn i hefyd yn bresennol adeg lansio'r wefan newydd cyfranogiad disgyblion ac mae'n amlwg ein bod yn ymroddedig i gyfranogiad disgyblion yng Nghymru. Yn fy marn i, mae'n bwysig bod cyfranogiad disgyblion yn cael ei fewnosod ar draws pob ysgol a choleg yng Nghymru, a bod hynny'n golygu mwy na sefydlu cyngor ysgol yn unig. Os llwyddwn i wneud hyn yng Nghymru, byddwn yn medru adrodd am gynnydd sylweddol tuag at gyflawni casgliad terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y dylai Llywodraethau: "… gryfhau cyfranogiad plant yn yr holl faterion yn ymwneud â'r ysgol, y dosbarth a dysgu sy'n effeithio arnynt."

**Cod Ymddygiad Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

Eleni bu ymgynghori ar God Ymddygiad diwygiedig i athrawon. Yn fy adroddiad 'Gwrando a Dysgu' nododd y plant fod athrawon yn rhoi esiampl gadarnhaol iddynt, ac y gall athrawon newid eu bywydau mewn rhai achosion. Pan gaiff ei gyhoeddi o'r diwedd, rwy'n gobeithio y bydd y cod diwygiedig yn rhoi eglurhad i blant, rhieni ac ysgolion ynghylch y safonau proffesiynoldeb y gall pob plentyn ddisgwyl eu derbyn.

>>>

**Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb**

Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar ymyrraeth ddiogel ac effeithiol. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn delio, ymhlith pethau eraill, â faint o rym gall athrawon ei ddefnyddio. Wrth ddadansoddi'r ddogfen, daeth yn eglur fod gwahaniaeth rhwng yr hyn roedd y Llywodraeth yn ei gynnig a'r hyn a geir yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Rwyf wedi ceisio cwrdd â swyddogion y Llywodraeth i esbonio fy marn ar yr ymgynghoriad hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn y fersiwn derfynol o'r ddogfen hon pan gaiff ei chyhoeddi.

Serch hynny, rwyf wedi cael fy siomi gan y cynnydd araf wrth weithredu argymhellion llawn yr adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Bu plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses adolygu, ac rwy'n gobeithio bydd y Llywodraeth yn cyfleu ei chynnydd yn glir o ran gweithredu'r argymhellion, fel bod modd gweld newidiadau ym mhrofiadau plant mewn ysgolion yng Nghymru.

**Addysg gyfrwng Gymraeg**

Eleni datblygwyd y Strategaeth Addysg Gyfrwng Gymraeg genedlaethol gyntaf. Rwy'n credu bod hwn yn ddatblygiad i'w groesawu, gan ei fod yn ceisio datblygu darpariaeth effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod addysg.

Am y tro cyntaf, mae gan Gymru gyfeiriad cenedlaethol strategol ar gyfer addysg gyfrwng Gymraeg ac addysg Gymraeg, ac mae'n cynnwys rhaglen weithredu gyda thargedau penodol ar gyfer cyflawni gwelliannau.

Mae llawer o heriau wrth ymdrin â materion addysg gyfrwng Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i wendidau presennol yn y sector addysg bellach ac, yn y blynyddoedd cynnar, edrych ar egwyddor sylfaenol democrateiddio addysg gyfrwng Gymraeg, gan symud y tu hwnt i ymateb i'r galw gan rieni.

**Adolygu gwariant ym myd addysg**

Nodaf fod Gweinidog Addysg newydd Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiad o wariant ar addysg yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd yr adolygiad yn ystyried dull seiliedig ar hawliau plant o gyflawni ei waith, gan fod nifer o gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag addysg yn y dosbarth yn diogelu hawliau plant, er enghraifft gweinyddu prydau ysgol am ddim, cymhwysedd i dderbyn cludiant i'r ysgol a derbyn i ysgolion. Er fy mod yn croesawu'r adolygiad a'r nod o sicrhau bod cyllid yn cael ei wario ar addysg reng flaen, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd nad yw hawliau plant yn cael eu hanwybyddu mewn unrhyw gynigion i symud gwariant tua'r dosbarth.

**Cynigion Ad-drefnu Ysgolion**

Yn dilyn y canllawiau a gyflwynwyd ym mis Medi 2009, a ddaeth i rym yn Ionawr 2010, rwy'n croesawu'r ffaith bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â phlant ynghylch cynigion ad-drefnu ysgolion sy'n effeithio arnynt. Rwyf wedi derbyn nifer o alwadau gan blant a phobl ifanc sy'n dioddef trallod dealladwy iawn ar ôl dod yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig a allai gael effaith sylweddol ar eu bywydau. Mae angen newid ar frys yn null awdurdodau o ddarparu gwybodaeth i blant a sicrhau eu cyfranogiad yn y broses. Efallai y byddaf yn ystyried edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau i blant o dan y canllawiau statudol diwygiedig.

## Cwnsela mewn Ysgolion

Yn 2004 cyhoeddodd fy swyddfa 'Clywch', ac un o'i 31 argymhelliad oedd bod angen gwasanaeth cyfrinachol mewn lleoliad ysgol fel rhan o'r system cefnogaeth fugeiliol ehangach.

Bellach bu gennym gynllun arobryn yn gweithredu ers blwyddyn yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru, ac mae'r ymateb gan blant a phobl ifanc wedi dangos faint mae'r bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio yn ei werthfawrogi.

Er mai yn y cyfnod cynnar y mae'r gwaith o gyflwyno cwnsela yn yr ysgolion uwchradd, rwy'n fodlon ar sut mae hyn yn datblygu. Rwyf hefyd yn cael fy nghalonogi wrth weld sut mae gwella lles plent yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth allweddol ym maes addysg yng Nghymru, a bod y llywodraeth ac eraill yn awr yn cydnabod y cysylltiad rhwng lles plant a gwell canlyniadau.

## Mesur Addysg (Cymru) 2009

Ym mis Rhagfyr 2009, cymeradwywyd Mesur i ymestyn hawliau plant trwy roi hawl iddynt gyflwyno apeliadau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'n newid y gyfraith sy'n rhoi hawl i rieni gyflwyno apeliadau a hawliadau i'r Tribiwnlys. Awgrymwyd y cynnig gwreiddiol gan fy rhagflaenydd, Peter Clarke. Er bod effaith y Mesur hwn yn anodd ei hasesu, mae'n sefydlu egwyddor bwysig, ac yn cyflawni erthygl 12 o CCUHP. Am y rhesymau hynny, rwy'n cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld pa wersi sydd i'w dysgu o'r ardaloedd peilot cyn ehangu hyn i gynnwys pob rhan o Gymru.

## Toiledau Ysgol

Y llynedd roeddwn i'n gobeithio na fyddai rhaid i mi godi llais am doiledau ysgol eto. Gwaetha'r modd, mae plant a phobl ifanc yn dal i drafod cyfleusterau toiledau'r ysgol gyda mi. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori'n fuan ar ganllawiau arfer gorau yng nghyswllt toiledau ysgol, ac mae hynny i'w groesawu.

Cyhoeddodd fy swyddfa 'Codi'r Clawr' yn 2004, yn amlinellu pryderon plant, a gwnaeth nifer o argymhellion. Mor bell yn ôl â 2001, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg yn Y Wlad sy'n Dysgu. Yn y cyhoeddiad hwnnw dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n "... cynyddu'n sylweddol y cyllid ar gyfer adeiladau ysgol (£100miliwn y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf) i sicrhau bod yr holl adeiladau sydd mewn cyflwr ffisegol da yn symud at gyflawni targed 2010." Mae 2010 bellach wedi cyrraedd, ac er ein bod wedi gweld cynnydd mewn rhai ysgolion ac yn yr adeiladau newydd, nid yw'n ddigon da bod rhai o'n plant yn defnyddio toiledau ysgol heb seddau a heb ddrysau ar y ciwbiglau, gyda chyfleusterau ymolchi annigonol, a'u bod yn teimlo mor gryf am hynny fel eu bod yn osgoi defnyddio'r toiledau yn ystod y diwrnod ysgol. On'd yw ein plant yn haeddu gwell na hyn?

Byddai cymdeithas deg i blant yn dangos mwy o barch. Mae bwlch yma rhwng bwriad polisi ac arfer, ac er bod angen gwneud penderfyniadau anodd mewn ysgolion, rhaid rhoi blaenoriaeth yn awr i unioni'r cam hwn, fel nad yw plant yn dal i ddioddef colli eu hurddas a'u parch.

## Nod 3
## Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib, yn cynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chael eu hecsbloetio.

### Gofal newydd-anedig

Mae anawsterau'n parhau gyda'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer babanod cynamserol a sâl a'u teuluoedd mewn rhai rhannau o Gymru, yn cynnwys materion yn ymwneud â lefelau staffio a chyfraddau llenwi. Er fy mod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £2 filiwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau newydd-anedig, rwy'n cwestiynu a yw hynny'n ddigonol i weithredu Safonau Newydd-anedig Cymru Gyfan yn llawn.

Byddaf yn dilyn yn fanwl weithrediad yr argymhellion a wnaed gan grŵp arbenigol yn edrych ar welliannau i'r gofal am fabanod sâl a chynamserol yng Nghymru – y derbyniwyd pob un ohonynt gan y Gweinidog Iechyd ym mis Rhagfyr 2009 – i weld a ydynt yn wir yn arwain at well gwasanaethau ar gyfer y babanod diamddiffyn hyn.

Byddaf hefyd yn edrych ar ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Lles Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weld a yw Llywodraeth Cymru yn wirioneddol ymroddedig i wella'r gwasanaethau ar gyfer babanod newydd-anedig a'u teuluoedd ar draws Cymru. Rydym yn gwybod bod galw cynyddol am wasanaethau newydd-anedig yng Nghymru, ac mae'n rhaid i ni ofalu bod gan yr unedau hyn adnoddau digonol i sicrhau bod y plant diamddiffyn hyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

### Ymddygiad rhywiol niweidiol

Ym mis Mai 2008 derbyniodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i ystyried gwasanaethau ar gyfer plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn eu hymateb i'm hadolygiad blynyddol yn 2008-2009, cadarnhaodd y llywodraeth fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda sefydliadau amddiffyn plant gwirfoddol i ystyried pa newidiadau y gellid eu rhoi ar waith o ran arfer, ac i edrych ar effeithiolrwydd y protocolau presennol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld canlyniadau'r gwaith hwn, a chyhoeddi'r camau y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i symud ymlaen gyda'r argymhellion.

### Diogelu

Cyhoeddwyd dau adroddiad pwysig ar sut mae plant Cymru'n cael eu diogelu yn hydref 2009, ac er bod y rhain yn cydnabod cynnydd a welwyd mewn rhai meysydd, roedd meysydd eraill lle gellid cyflawni gwelliannau pellach. Mae gan blant hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth, ac mae dyletswydd arnom ni fel oedolion i ddarparu'r hawl hwn yn effeithiol i bob plentyn. Rwyf wedi darllen yr adroddiadau gyda diddordeb, ac roeddwn yn falch o dderbyn sedd ar Fforwm Genedlaethol newydd Diogelu Plant a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Rwyf hefyd wedi cwrdd â'r tîm sy'n adolygu diogelu o fewn y Gwasanaeth

Iechyd Gwladol yng Nghymru er mwyn amlygu fy mhryderon ynghylch sut mae gwasanaethau iechyd yn amddiffyn plant. Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, bydd y galw am wasanaethau diogelu yn cynyddu, yn hytrach na lleihau, ac mae'n hanfodol bod y gwersi o'r ddau adroddiad yn cael eu dysgu, a bod pob oedolyn yn cyflawni eu dyletswyddau i blant mewn modd effeithiol a chadarn. Byddaf yn codi mater diogelu gyda'm cysylltiadau yn y gwasanaeth iechyd yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi siarad yn ddi-flewyn ar dafod yn y cyfryngau am faterion diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r cyfryngau wedi cymryd diddordeb byw ar adeg cyhoeddi adolygiadau achosion difrifol, ac mae diddordeb y cyhoedd wedi bod yn briodol o ddwys. Rwy'n gobeithio y bydd y gwaith a ddatblygir gan y Fforwm Diogelu Cenedlaethol yn ymateb i bryderon ynghylch y system sydd gennym i amddiffyn plant ac yn cynyddu hyder y cyhoedd.

Gofynion digon elfennol, ond hanfodol, yw'r rhain. Rhaid i blant a phobl ifanc fod yn hyderus y gallwn ac y byddwn yn eu hamddiffyn rhag niwed, ac y gwnawn bopeth o fewn ein gallu i'w diogelu. Byddaf yn cymryd diddordeb byw yn hyn, fel bod camau'n cael eu cymryd ar frys.

**Awdioleg Pediatrig**

Ym mis Awst 2009 fe gwrddais â grŵp o blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw. Wrth drafod gyda nhw daeth yn eglur fod ymarfer eu hawliau'n heriol iawn iddyn nhw mewn byd sy'n dibynnu cymaint ar glywed. Gwnaeth y plant yn y grŵp y pwynt yn glir iawn i mi nad ydynt bob amser yn cael eu trin yn gyfartal, ac nad ydynt bob amser yn profi chwarae teg.

Rhai o'r rhwystrau mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu bob dydd yw'r lefel isel o ymwybyddiaeth gan staff rheng flaen o'r materion sy'n effeithio arnyn nhw, bod profiadau ysgol gynradd ac uwchradd yn gallu bod yn heriol hyd yn oed pan fydd Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu neu gyfathrebydd yn bresennol, a bod mynd ar y bws a cheisio esbonio wrth y gyrrwr ble rydych chi eisiau mynd yn gallu bod yn anodd.

Roedd ganddyn nhw atebion syml i rai o'r problemau maen nhw'n eu hwynebu:

— **rhoi map o daith y bws gyda'r arosfannau wedi'u nodi'n glir ar y bws, fel bod modd i blentyn neu berson ifanc byddar bwyntio at eu cyrchfan wrth fynd i mewn i'r bws;**

— **darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i'r holl staff rheng flaen; a**

— **chanfod ffyrdd o wneud Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn fforddiadwy, fel bod pob plentyn a pherson ifanc byddar yn cael cyfle i'w dysgu.**

Yn dilyn fy nghyfarfod gyda'r grŵp yma o blant a phobl ifanc, derbyniais ddogfen ymgynghori ar Safonau ar gyfer gwasanaethau Awdioleg Pediatrig. Dyma'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant byddar a rhai â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, a gall dogfen safonau fod yn ffordd dda o helpu i wella'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, fe wnaethom ni ofyn i'r Llywodraeth ystyried hawliau plant yn fanylach, gan fod y ddogfen ymgynghori'n cynnwys holiadur boddhad cleifion i'w lenwi gan rieni ar sail profiadau'r plentyn. Fe wnaethon ni annog y Llywodraeth i ystyried dulliau y gellid eu defnyddio i gasglu barn plant ar y gwasanaeth yr oeddent hwy eu hunain wedi'i dderbyn. Cawson ni drafodaeth gadarnhaol gyda swyddogion y Llywodraeth, a byddwn yn trafod cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau pediatrig ehangach yn hwyrach yn 2010 gyda swyddogion cyswllt iechyd dynodedig y byrddau iechyd lleol.

## Cadeiriau Olwyn

Yn adroddiad blynyddol y llynedd fe wnaethon ni gyflwyno sylwadau ar yr amserau aros annerbyniol i ddarparu ac atgyweirio cadeiriau olwyn i blant a phobl ifanc. Roeddem ni'n ymwybodol bod disgwyl am adolygiad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ers cryn amser. Dyna oedd Cyfnod 1, ac rwy'n falch o weld bod adolygiad pellach yn dod yn ei flaen yn dda. Dylai hwn awgrymu gwelliannau i'r gwasanaeth a fydd yn sicrhau gwasanaeth mwy prydlon.
Rwyf wedi bod yn falch o gael cynrychiolaeth ar Fwrdd Prosiect Adolygiad Cymru Gyfan ar Ystum Corff a Symudedd.

Roedd ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wasanaethau cadair olwyn yng Nghymru yn ychwanegiad i'w groesawu at y broses o gasglu tystiolaeth i helpu i hysbysu ymdrechion y Llywodraeth i ymateb i'r materion niferus y mae defnyddwyr cadair olwyn a'u teuluoedd yn eu hwynebu ac rwy'n siŵr y bydd argymhellion y Pwyllgor yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'i hystyriaethau.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Cyhoeddwyd cyd-adolygiad CAMHS o'r diwedd yn hydref 2009, ac fe wnes i ddarllen yr adroddiad â diddordeb. Roedd yr enghreifftiau o'r anawsterau roedd plant a'u teuluoedd wedi'u profi wrth symud o amgylch y system yn llawer rhy gyfarwydd imi. Amlygodd yr adroddiad nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau sylweddol, ac mae'n darparu darlun clir i ni i gyd o sut mae gwella'r gwasanaethau pwysig hyn i blant a phobl ifanc. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod pwysigrwydd iechyd emosiynol cadarnhaol i bob plentyn, ac felly rwy'n galw arnyn nhw i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad ar y cyd mewn modd cadarnhaol sy'n dangos natur hollbwysig y gwasanaethau hyn.

Mae'r adroddiad yn galw am ddatblygu cynllun cenedlaethol o fewn chwe mis i ymdrin â'r materion a nodwyd o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau.
Dylai cynllun gweithredu o'r fath gyflwyno blaenoriaethau clir a dyddiadau targed ar gyfer yr holl gyrff perthnasol. Rwy'n croesawu sefydlu grŵp arbenigol mewn ymateb i'r adroddiad.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod iechyd emosiynol plant a phobl ifanc yn wir yn 'Fusnes Pawb' a bod modd i bob plentyn a pherson ifanc, naw mlynedd wedi cyhoeddi'r strategaeth, gael mynediad at y gwasanaethau effeithiol y mae eu hangen arnynt yn ddioed.

## Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Ym mis Chwefror 2010, derbyniodd yr LCO Iechyd Meddwl gydsyniad brenhinol o'r diwedd. Rhoddodd hyn bwerau i Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu fel bod hawl i asesiad gan bobl Cymru, bod dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau priodol, a bod hawl i eiriolaeth. Roeddwn i'n falch o weld bod sicrwydd y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu i wella bywydau plant a phobl ifanc trwy wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS), ac rwy'n edrych ymlaen at weld pa Fesurau a gyflwynir i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn CAMHS.

## Nod 4
## Cael mynediad i chwarae, hamdden, a gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol

**Chwarae**

Un pwyllgor yr wyf wedi'i fynychu'n aml fel tyst yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Rwy'n credu bod y Pwyllgor hwn yn cyflawni rôl werthfawr a gwerth chweil drwy alw Llywodraeth Cymru, a chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, i gyfri. Mae ei fodolaeth ynddo'i hun yn arwydd o'r pwysigrwydd mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru / deddfwriaeth yn ei roi i faterion plant a phobl ifanc, ond mae'r Pwyllgor yn llawer mwy na rhywbeth symbolaidd. Mae'n craffu ac yn monitro er mwyn asesu a oes bwlch rhwng polisi a gweithredu ymarferol neu beidio.

Roeddwn yn arbennig o falch o weld y gwaith a wnaed yn ystod haf 2009, trwy'r prosiect 'it's all about you'. Helpodd hyn i lunio rhaglen gwaith i ddod y Pwyllgor, drwy ymgynghori â 2,700 o blant a phobl ifanc ar y materion oedd yn bwysig iddyn nhw. O ganlyniad, cyhoeddodd y pwyllgor ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a threulio amser. Ers hynny mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori gyda 1,200 o blant a phobl ifanc ar y pwnc penodol hwn. Rwy'n llongyfarch y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac yn argymell eu harferion i'r pwyllgorau eraill.

Mae chwarae yn hawl sylfaenol – erthygl 31 o CCUHP – ac fel oedolion mae dyletswydd arnom i wneud chwarae'n bosib. Mae'n bwysig, nid ar gyfer mwynhad yn unig, ond hefyd mae'n hanfodol ar gyfer datblygiad corfforol ac emosiynol. Dylid sicrhau bod cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses – cynllunio, cynnal, monitro a gwerthuso, yn elfen allweddol o bob agwedd ar y ddarpariaeth chwarae a hamdden a drefnir.

Bu'r parhad yn natblygiad y Cyfnod Sylfaen yn amlwg i mi unwaith eto adeg fy ymweliadau niferus ag ysgolion, ac felly rwy'n hyderus bod Cymru'n gwneud cynnydd da o ran datblygu lleoliadau strwythuredig a lled-strwythuredig ar gyfer chwarae plant.

Mae llawer o ddatblygiadau eraill ar waith ar hyn o bryd o fewn yr agenda chwarae, gan gynnwys gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae, goblygiadau'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a'r ffaith bod y llywodraeth wedi nodi chwarae fel un o'u blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu CCUHP, Gwneud Pethau'n Iawn. Fy ngobaith i yw y bydd ymchwiliad y Pwyllgor hwn, ynghyd â barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, yn cael eu clywed yn ystod y trafodaethau a'r datblygiadau hyn.

Mesurir llwyddiant yr holl ddatblygiadau hyn wrth gwrs yn ôl profiadau bywyd plant a phobl ifanc. Mae manteision chwarae hunangyfeiriadol a ddewisir yn rhydd yn glir. Mae plant yn dysgu sut mae cymdeithasu, asesu risg a chaffael sgiliau cyd-drafod wrth chwarae. Mae plentyndod yn amser mor werthfawr, ac mae chwarae'n hollbwysig ar gyfer plentyndod iach a hapus. Ac eto rwy'n dal i ddod ar draws enghreifftiau lle nad yw plant yn cael chwarae yn ein mannau cyhoeddus, lle mae rhieni sy'n gadael i'w plant chwarae ar

y strydoedd yn cael eu ceryddu, a lle mae eraill mor bryderus y bydd eu plant yn cael eu niweidio fel na fyddent hyd yn oed yn ystyried gadael i'w plant chwarae heb oruchwyliaeth barhaus gan oedolyn. Alla i ond teimlo ein bod ni wedi colli rhywbeth. Roedd pobl o'm cenhedlaeth i yn mwynhau llawer mwy o ryddid pan oeddem yn blant. Rwy'n galw ar bob oedolyn i feddwl am sut gellir agor ein mannau cyhoeddus i blant chwarae ynddynt, ac i ailystyried eu hagwedd pan welant blant yn chwarae yn ein strydoedd, ein parciau, yng nghefn gwlad ac yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd.

## Nod 5
## Yn cael eu trin â pharch ac yn cael cydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

**Hawliau Dynol**

Derbyniais adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar eu Hymchwiliad Hawliau Dynol cyntaf. Roedd yr adroddiad hwnnw'n amlygu'r heriau os yw gwasanaethau cyhoeddus am ddarparu gwasanaeth mewn modd a seiliwyd ar hawliau dynol, a dangosodd hefyd ymhellach sut y gwahaniaethir yn erbyn plant ar sail eu hoedran yn unig. Mae camau sylweddol y gall pob un ohonom eu cymryd i sicrhau nad yw gwahaniaethu o'r fath yn digwydd. Byddaf yn edrych ar ddulliau seiliedig ar hawliau plant gyda darparwyr gwasanaeth yn y flwyddyn sy'n dod er mwyn gweld sut gall y rhain sicrhau'r gwasanaethau gorau i blant. Mae'n eglur i mi o'r Ymchwiliad Hawliau Dynol y gallwn wella lefelau'r ddealltwriaeth o Hawliau Dynol a Hawliau Plant yng Nghymru, ac rwyf felly yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant yn eu cynllun gweithredu CCUHP.

**Mesur Cydraddoldeb**

Bu dadleuon a thrafodaethau pellach ynghylch y Mesur Cydraddoldeb eleni. Fodd bynnag, er gwaethaf tystiolaeth glir o'r gwahaniaethu mae plant yn ei wynebu, mae'r Mesur yn dal heb gynnig amddiffyniad lwyr i blant a phobl ifanc rhag gwahaniaethu ar sail eu hoedran os ydynt o dan 18. Mae hyn yn golygu mai plant fydd yr unig grŵp oedran mewn cymdeithas y bydd y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth gydraddoldeb yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Gydraddoldeb yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno dyletswyddau sector cyhoeddus penodol yng Nghymru, a byddwn yn gobeithio gweld Cymru'n archwilio'r cyfleoedd a ddarperir mor helaeth â phosib, fel bod y dyletswyddau'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ei holl ddinasyddion. Mae'n hanfodol bwysig bod ystyried y materion y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu yn derbyn sylw dyledus wrth ddatblygu'r dyletswyddau hyn.

---

**Plant sy'n ceisio lloches**

Eleni rwyf wedi parhau i dderbyn galwadau am blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches naill ai o fewn eu teuluoedd neu ar eu pennau eu hunain.

Mewn adroddiadau yn y gorffennol mae fy swyddfa wedi tynnu sylw at fater cadw plant mewn canolfannau clirio mewnfudwyr, ac mae'r trafodaethau cychwynnol yng Nghymru ynghylch edrych ar bosibiliadau heblaw cadw plant yn gaeth wedi fy mhlesio. Rwy'n edrych ymlaen at gael cysylltiad pellach â'r trafodaethau hyn, er mwyn cyrraedd dull seiliedig ar hawliau dynol sy'n sicrhau nad yw plant yn cael eu cadw'n gaeth ond am y cyfnod byrraf posib, a hynny dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bopeth arall. Cedwir plant mewn canolfannau clirio mewnfudwyr o ganlyniad i statws mewnfudo eu teuluoedd, ac, fel yr adroddwyd gan fy nghyfaill, Comisiynydd Plant Lloegr, mae'r amgylchiadau mewn canolfannau o'r fath yn cael effaith niweidiol ar les y plant hynny.

Rwyf wedi croesawu cyflwyno dyletswyddau newydd ar Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig o dan Ddeddf Ffiniau a Mewnfudo 2009, ac edrychaf ymlaen at weld sut bydd y dyletswyddau newydd hyn yn gwella lles plant sy'n ceisio lloches. Mae'n bwysig i mi bod y plant diamddiffyn hyn yn cael eu diogelu'n effeithiol. Mae mater asesiadau oedran ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain yn dal i beri pryder i mi. Yn Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid 2008, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol: "Datblygu protocol sy'n cyflwyno'r safonau a'r disgwyliadau ar gyfer asesu plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid a rhai sy'n ceisio lloches."

Mae llawer o'r plant hyn yn cyrraedd y wlad heb bapurau, ac mae angen i wasanaethau lleol ganfod eu hoedran fel bod modd darparu gwasanaethau priodol ar eu cyfer. Mae'n eglur i mi y byddai gweithwyr cymdeithasol y gofynnir iddynt gynnal asesiadau o'r fath yn elwa o arweiniad clir a fyddai'n cefnogi eu harfer ac yn sicrhau bod hawliau dynol y plant y maent yn eu hasesu yn cael eu cynnal yn llawn. Mae hwn yn fater diogelu pwysig. Carwn atgoffa'r Llywodraeth fod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi galw ar y Llywodraeth yn 2008 i: "...give the benefit of the doubt in age-disputed cases of unaccompanied minors seeking asylum, and seek experts' guidance on how to determine age."

Bydd datblygu protocol yn fan cychwyn defnyddiol, ond bydd angen ei gefnogi â hyfforddiant pellach i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i wneud yr asesiadau hollbwysig hyn.

Mae angen sicrhau ffocws clir ar yr angen am hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch dulliau effeithiol o ddiogelu'r plant diamddiffyn hyn. Dengys gwybodaeth a gasglwyd o alwadau i'm tîm Ymchwiliadau a Chyngor fod gwybodaeth a hyfforddiant yn hollbwysig ymhlith gweithwyr proffesiynol i wella'r driniaeth mae'r plant hyn yn ei derbyn.

**Masnachu mewn Plant**

Ers lansio fy adroddiad 'Ffiniau Pryder' cymerwyd nifer o gamau i wireddu'r amcanion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd yr argymhellion o ddifri, a'i bod bellach yn cydgysylltu Grŵp Cymru Gyfan ar Fasnachu mewn Plant, sy'n ceisio cymryd camau cynhwysfawr yn y maes hwn ledled Cymru. Mae plant sydd o bosib wedi cael eu masnachu ymhlith plant mwyaf diamddiffyn Cymru heddiw, gan eu bod yn boblogaeth guddiedig i raddau helaeth. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu comisiynu pecyn hyfforddiant e-ddysgu Cymru gyfan ar gyfer staff rheng flaen, er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion masnachu mewn plant. Nodwyd y bwlch gwybodaeth hwn yn fy adroddiad, ac rwy'n falch bod y Llywodraeth yn ceisio ymateb iddo. Rwy'n edrych ymlaen yn y dyfodol at ddarllen gwerthusiad o effeithiolrwydd yr hyfforddiant. Nodaf hefyd y bydd Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu mewn Plant yn cael ei ddrafftio yn ystod y misoedd nesaf, ac edrychaf ymlaen at weld hwnnw'n cael ei weithredu.

Rwy'n falch bod yr heddlu yng Nghymru hefyd wedi ymgysylltu â'r mater hwn ledled Cymru, a bod Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi rhoi cyfarwyddyd clir i heddluoedd ynghylch sut mae ymateb i anghenion plant y deuir o hyd iddynt mewn tai a ddefnyddir ar gyfer tyfu canabis. Mae'n eglur bod nodi'r plant hyn fel plant yn gyntaf, a throseddwyr yn ail yn hanfodol er mwyn diogelu eu hawliau a'u lles.

Fodd bynnag, rhaid i mi nodi, pan yw fy swyddogion ymchwiliadau a chyngor wedi delio ag achosion lle amheuir bod plant yn cael eu masnachu, eu bod wedi cael hyd i ymateb eithaf amrywiol gan asiantaethau wrth ystyried dangosyddion masnachu mewn plant. Dyna pam rwyf yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd yr hyfforddiant ar-lein a'r deunyddiau cynyddu ymwybyddiaeth y mae'r Llywodraeth wedi eu comisiynu. Fel y nodais yn 2009, roedd diwylliant o fethu credu y gallai masnachu mewn plant ddigwydd yng Nghymru, ac eto mae'r dystiolaeth yn fy adroddiad i ac adroddiadau dilynol yn amlygu bod y drosedd hon yn digwydd ledled Cymru heddiw, a bod rhaid i ni weithredu ar y cyd i sicrhau lles a diogelwch plant a all fod yn y sefyllfaoedd hyn.

**Eiriolaeth**

Dylasai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fod erbyn hyn wedi ystyried sut i gynllunio cyfeiriad comisiynu eiriolaeth ar sail ranbarthol ac isranbarthol yn unol â Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc. Byddaf yn monitro yn ofalus os yw hyn wedi'i gyflawni ac i ba raddau y mae uned berfformio a datblygiad eiriolaeth o fewn Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae gen i gynrychiolaeth ar y Bwrdd Annibynnol Eiriolaeth Cenedlaethol ac rwy'n disgwyl i'r bwrdd chwarae ei rhan wrth wthio'r agenda hyn yn ei flaen.

Llinell gymorth genedlaethol
Rwyf wedi croesawi'r cynlluniau i wella gwasanaethau eirioli drwy gyfrwng gwasanaeth rhadffôn a thecstio -siop un stop rhithiol. Er hyn, mae'n rhaid i'r gwasanaethau eirioli fod yn bodoli ac yn eu lle ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen y gwasanaeth ac rwy'n bryderus y bydd yna blant yn cael eu hysbysu nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau eirioli.

Yn y pendraw, mae llwyddiant y gwasanaeth cenedlaethol yn dibynnu ar argaeledd darpariaeth leol. Os yw'r ddarpariaeth yma yn anghyson ac yn wan, mi fydd effeithiolrwydd a chadarnwedd o'r siop un stop yn cael ei gwestiynu.

Tra yn croesawi datblygiad y siop un stop cenedlaethol, mae hefyd o'r pwys mwyaf nad yw'r sawl sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r model eiriolaeth yn colli ffocws ar y grwpiau o blant a phobl ifanc mwy bregus, gan gynnwys y rhai sydd â hawl statudol i dderbyn gwasanaethau eirioli.

## Bathodynnau Glas

Mater pwysig a amlygwyd yn ystod y flwyddyn oedd yr anawsterau mae teuluoedd â phlant anabl o dan 3 oed yn eu hwynebu'n feunyddiol oherwydd nad ydynt yn gymwys i dderbyn bathodynnau glas.

Ym mis Ionawr 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i foderneiddio'r Cynllun Bathodynnau Glas yng Nghymru. Un maes a nodwyd ar gyfer gweithredu cynnar oedd darparu Bathodyn Glas i blant o dan 3 oedd yn dioddef o gyflyrau meddygol penodol.

Mae Llywodraeth Cymru i'w llongyfarch ar ymdrin â'r mater hwn, ac os rhoddir y cynllun ar waith yn effeithiol, bydd yn arwain at wella'n sylweddol ansawdd bywyd nifer bach o deuluoedd sydd â phlant ag anableddau penodol ac y mae angen iddynt gludo cyfarpar arbenigol a meddyginiaeth.

Wedi cyflwyno sylwadau, ynghyd ag eraill, i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn, byddaf yn parhau i fonitro gweithrediad y cynllun.

# Nod 6
# Meddu ar gartref a chymuned diogel sy'n cynnal lles corfforol ac emosiynol

## Canfyddiadau Negyddol o Blant a Phobl Ifanc

Mae hwn yn ymgymeriad anferth: newid canfyddiad y cyhoedd a darbwyllo cyfryngau Cymru, yn rhanbarthol a chenedlaethol, i argraffu a darlledu mwy o hanesion newyddion cadarnhaol am blant a phobl ifanc Cymru. Ni allwn gyflawni hyn yn ynysig, ac ni allwn gyflawni newid dros nos.

Gan weithio mewn partneriaeth â llu o sefydliadau eraill, yn cynnwys byrddau golygu ifanc awdurdodau lleol a chanolfannau'r cyfryngau, byddaf yn gweithio i helpu i wella sut portreadir plant a phobl ifanc yn y cyfryngau, gan ddylanwadu ar y canfyddiad cyhoeddus o blant a phobl ifanc Cymru. Un o'm nodau eraill yw grymuso plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar yr agenda newyddion. Rwy'n ymroddedig i sicrhau bod hyn yn un o'm prif themâu ar gyfer y pum mlynedd sydd ar ôl gen i.

## Troseddu Ieuenctid

Bu cryn ffocws ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn ystod y flwyddyn flaenorol, gyda Phwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad ar brofiadau plant mewn mannau diogel, a Llywodraeth Cymru yn comisiynu'r Athro Rod Morgan i archwilio'r posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Mae'r ddau ddatblygiad fel ei gilydd yn bwysig i mi, gan ei bod yn glir bod rhai o'r achosion pennaf

o dorri hawliau plant yn digwydd yn y maes hwn.

Mae gennym eisoes Strategaeth Troseddau Ieuenctid sydd wedi'i seilio ar egwyddor plant yn gyntaf a throseddwyr yn ail, ac rwyf fi'n credu, petai cyfiawnder ieuenctid yn cael ei ddatganoli i Gymru, y gallem fynd ati ar y cyd i ymdrin â hawliau ac anghenion y plant hynny yng Nghymru. Bu cryn drafod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ystyried bod nifer y troseddwyr ifanc sy'n cael eu dedfrydu yng Nghymru yn gostwng, ynghylch y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru.

Galwodd adroddiad y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, ac i herio sut mae'r cyfryngau'n portreadu troseddwyr ifanc yng Nghymru. Mae hwn yn fater rwyf wedi bod yn pryderu yn ei gylch ar lefel genedlaethol a lleol. Rwy'n edrych ymlaen at glywed ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor a bod yn rhan o'r trafodaethau ehangach ynghylch sut mae gwella'r gwasanaeth hollbwysig hwn yn fwy fyth wrth symud ymlaen. Edrychaf ymlaen yn arbennig at glywed ymateb y Llywodraeth i ddatganoli posib cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Amlygodd y Pwyllgor hefyd faterion yn ymwneud â mynediad i ofal iechyd y gall troseddwyr ifanc o Gymru eu profi pan gânt eu cadw yn y ddalfa yn Lloegr.

Mae hyn yn rhywbeth mae fy swyddogion yn ei glywed wrth ymweld â phobl ifanc yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc y Parc, Ashfield a Stoke Heath a Chartref Plant Diogel Hillside. Yn ystod yr ymweliadau hynny rhoddodd fy staff gyflwyniadau a chynnal cymorthfeydd unigol gyda phlant a ofynnodd am ein help.

Mae gennym lawer iawn o weithwyr proffesiynol ymroddedig sy'n gweithio gyda phlant a allai ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, ac rwyf wedi siarad â llawer iawn o'r rhain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar lefel unigol, rydym wedi helpu plant mewn mannau diogel gyda 41 o wahanol faterion, a oedd yn cynnwys addysg, gwasanaethau iechyd meddwl, llety ac eiriolaeth. Rwy'n pryderu nad yw'r ddarpariaeth CAMHS yn y Parc wedi cael ei sicrhau ar gyfer y tymor hir, ac am effaith bosib diffyg darpariaeth o'r fath ar y bobl ifanc a gedwir yno.

O fewn ei Gynllun Gweithredu CCUHP, Gwneud Pethau'n Iawn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i nifer o gamau gweithredu yng nghyswllt sicrhau bod modd i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid fynnu eu hawliau CCUHP. Rwy'n edrych ymlaen at weld cynnydd ar y camau gweithredu hyn, gan gynnwys y gwaith o dan y Gronfa Cymunedau Mwy Diogel i gadw plant allan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Rwy'n ymwybodol bod rhai ardaloedd yng Nghymru yn ymdrin â phlant sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar sail hawliau, ac mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod yr ymyriadau hyn yn lleihau'r defnydd o gyfnodau yn y ddalfa. Rwy'n awyddus i ddysgu sut gall yr arfer

**Astudiaeth achos**

**Yn ystod ymweliad â Sefydliad Troseddwyr Ifanc daeth plentyn 13 oed atom a dweud ei fod o'r system ofal. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn derbyn gofal ers pum mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ei fod wedi cael naw lleoliad gofal gwahanol. Dywedodd nad oedd neb byth yn gwrando arno, ac mai dyna pam doedd y lleoliadau byth yn llwyddo. Dywedodd wrthym ni nad oedd erioed wedi cael eiriolwr, ac nad oedd yn gwybod beth oedd ystyr eiriolaeth. Dywedodd "dyw oedolion byth yn gwrando ar fy nheimladau, a dyna pam mae fy lleoliadau'n methu o hyd." Fe wnaethon ni drefnu eiriolaeth iddo fe ar unwaith yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Fe wnaethon ni hefyd gysylltu â'i Awdurdod Lleol am wasanaethau eiriolaeth, mewn pryd ar gyfer yr adeg pan fyddai'n cael ei ryddhau.**

hwn sy'n seiliedig ar hawliau gael ei estyn ledled Cymru fel bod pob plentyn yn elwa o'r dulliau hyn. Yn 2010 byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid, a byddwn yn cydweithio â'n cyd-Gomisiynwyr ar draws y DU ac Iwerddon i lunio galwad i weithredu i Lywodraeth y DU ei hystyried ac ymateb iddi.

---

**Cod ymddygiad teithio i ddysgwyr**

Rwyf wedi cydweithio'n agos â phlant o bob rhan o Gymru i roi adborth i Lywodraeth Cymru ar y cod ymddygiad sengl i bob plentyn a pherson ifanc sy'n teithio i leoliadau dysgu. Roedd gan blant farn glir iawn am effaith ymddygiad gwael ar bob math ar gludiant a sut roedd hynny'n effeithio ar eu taith i'r ysgol ac yn ôl. Daeth y cod i rym yn gynnar yn 2010.
Fe weithiom gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymgyrch hysbysebu fawr oedd yn portreadu plant a phobl ifanc yn teithio nôl ac ymlaen o'r ysgol, mewn modd positif. Newidiwyd y deunyddiau er mwyn adlewyrchu canfyddiad mwy cadarnhaol o blant yn teithio i'r ysgol ac oddi yno. Rwy'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd yr ymgyrch hyrwyddo a'r cod gyda phlant a phobl ifanc eu hunain. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i deithio ar gludiant sy'n lân ac i deimlo'n ddiogel wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r mannau lle maent yn dysgu.

## Nod 7
## Heb gael eu rhoi o dan anfantais oherwydd tlodi plant

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yw polisi arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth ynghylch:

- **Tlodi plant;**
- **Gwarchod plant a gofal dydd;**
- **Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig;**
- **Rhwymedigaethau Awdurdodau Lleol o ran darpariaeth Chwarae;**
- **Rhwymedigaethau Awdurdodau Lleol o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc.**

Rhoddais dystiolaeth yn ystod y craffu deddfwriaethol, a mynegi fy mhryderon a'm gobeithion o ran y Mesur. Yn y pen draw yr effaith ar brofiad plant fydd y canlyniad pwysicaf i'w nodi. Rwyf wedi sôn yn gyson am y bwlch wrth weithredu polisi. Rwy'n herio'r Llywodraeth i bontio'r bwlch rhwng amcanion ac egwyddorion Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a phrofiad bywyd gwirioneddol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a ddaeth yn gyfraith ym mis Chwefror 2010, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth ar gyfer lleihau tlodi plant, ac i adolygu'r strategaeth honno'n barhaus. Mae Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y Strategaeth Tlodi Plant genedlaethol a'r Cynllun Cyflawni. Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf, fe honnais mai: "...tlodi plant o bosib yw'r mater unigol pwysicaf y mae'r Gymru fodern yn ei hwynebu. Ailadroddodd cytundeb polisi Cymru'n Un y nod o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020." Mae'r datganiad hwnnw a'r ymrwymiad polisi yn dal i sefyll ac mae angen gweithredu ar y cyd ac ymdrechu'n benderfynol os ydym i gyflawni ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru fel eu bod yn cael cyfle i gyflawni eu potensial. Mae cyflawniad ein cenedl yn dibynnu ar lwyddo i ddileu tlodi plant, ac rwy'n ymroddedig i wneud popeth o fewn fy ngallu i gyfrannu at yr agenda hon. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i lynu'n gadarn at yr addewid a wnaed yn 1997 gan Lywodraeth Prydain i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

# Cyfrifon

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae Pwyllgor Archwilio'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn cynnwys uwch swyddogion y Comisiynydd ac aelodau annibynnol. Yn ystod y cyfnod cynhaliwyd dau gyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Archwilio, lle nad oedd ond un aelod annibynnol yn bresennol, gan fod cyfnod gwasanaeth pob un o'r aelodau annibynnol heblaw un wedi dod i ben. Er i'r Comisiynydd gynnal ymgyrch recriwtio, ni phenodwyd aelodau newydd.

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i chwilio am aelodau newydd i'r pwyllgor. Bellach mae wedi penodi dau aelod newydd, ac mae wrthi'n recriwtio rhagor. Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yw:

**Wyn Mears**
Ymgynghorydd Busnes a Chyn Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig; ac

**Ian Summers**
Ymgynghorydd Cyllid a Llywodraethu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyn Bartner yn Swyddfa Archwilio Cymru.

## Uwch swyddogion

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

**Keith Towler**
Comisiynydd Plant Cymru;

**Amanda Evans**
Swyddog Adnoddau Dynol;

**Sara Young**
Swyddog Cyfathrebu;

**Eleri Thomas**
Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd Plant (o 5 Hydref 2009);

**Andy Wallsgrove**
Pennaeth Gweithrediadau (o 5 Hydref 2009); a

**Tony Evans**
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol (roedd ar secondiad o Swyddfa Archwilio Cymru tan 31 Hydref 2009, pan gafodd ei benodi'n Bennaeth parhaol y Gwasanaethau Corfforaethol).

## Ariannu

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2009-10 derbyniodd y Comisiynydd £1.8 miliwn (2008-09: £1.8 miliwn) i dalu am ei weithgareddau. Ers sefydlu'r swyddfa yn 2001 mae cyllid y Comisiynydd Plant, a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, wedi cynyddu'n gyson i gyfateb i lwyth gwaith bythol gynyddol y Comisiynydd.

## Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Y Comisiynydd Plant, Tŷ Ystumllwynarth, Llys y Siarter, Ffordd Ffenics, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010, ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (iFReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn yr iFReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

## Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Mae'r Datganiad Costau Gweithredu yn dangos cost weithredol net, ar gyfer y cyfnod, o £1.857 miliwn (2008-09: £2.077 miliwn). Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £107,000 (2008-09: £96,000).

Yn ystod 2009-10 newidiodd staff y Comisiynydd i 26.6 (cyfwerth amser llawn) o 30 (cyfwerth amser llawn) aelod o staff, sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser. Digwyddodd y newid yn nifer y staff o ganlyniad i newidiadau wedi i'r Comisiynydd ailstrwythuro ei swyddfa yn ystod y cyfnod.

## Absenoldeb staff

Yn ystod 2009-10 cyfradd yr absenoldeb salwch yn swyddfa'r Comisiynydd oedd 5.16 y cant (2008-09 11 y cant), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Gofynnodd y Comisiynydd i'w archwilwyr mewnol, RSM Tenon, gynnal archwiliad cynaliadwyedd. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cyflwynwyd nifer o argymhellion sy'n cael eu hystyried gan Dîm Rheoli'r Comisiynydd. Un o'r argymhellion yw cwblhau Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, sy'n cael ei ddatblygu.

## Penodi uwch swyddogion

Penodwyd Keith Towler yn Gomisiynydd Plant Cymru o 1 Mawrth 2008. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng Mai 2006 a Hydref 2009, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

**Cyfle Cyfartal**

Cafodd pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru eu hystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais chwaith gan amodau na gofynion na ellir eu cyfiawnhau.

**Polisi Taliadau**

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol (Llog) yn Hwyr 1998, mae gofyn bod Comisiynydd Plant Cymru'n talu anfonebau cyflenwyr na ddadleuir yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn achos 2009-10 cyflawnodd Comisiynydd Plant Cymru 98.7 y cant (99.4 y cant yn 2008-09) o'r holl daliadau o'r fath a wnaed yn ystod y cyfnod. Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

**Archwilwyr**

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000 (Nodyn 8).

Mae RSM Tenon yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

**Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

**Datgelu gwybodaeth i'r Archwilwyr**

Mor bell ag yr wyf yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

**Taliadau i aelodau o'r Tîm Rheoli.**

**Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.**

**Yn achos aelodau eraill y Tîm Rheoli (TRh), pennwyd y taliadau gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.**

**Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwiliad, yn darparu manylion taliadau a buddion pensiwn swyddogion uchaf y sefydliad:**

| | 2009-10 **Ystod cyflog** **£000*** | 2009-10 **Buddion mewn nwyddau** (i'r £100 agosaf)* | 2008-09 **Ystod cyflog** **£000*** | 2008-09 **Buddion mewn nwyddau** (i'r £100 agosaf)* |
|---|---|---|---|---|
| Keith Towler<br>Comisiynydd Plant Cymru. | 90-95 | 5,400 | 85-90 | 5,400 |
| Eleri Thomas<br>Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd, o 5 Hydref 2009. | 25-30** | - | - | - |
| Andy Wallsgrove<br>Pennaeth Gweithrediadau, o 5 Hydref 2009. | 20-25** | - | - | - |
| Tony Evans***<br>Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, o 1 Tachwedd 2009. | 20-25** | - | - | - |

* Darparwyd car prydles i Keith Towler. Mae gwerth ariannol y buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarparwyd gan y cyflogwr yr oedd Cyllid y Wlad yn eu trin fel enillion trethadwy.

** Y symiau cyfatebol ar gyfer blwyddyn lawn oedd: £50 – 55,000 yn achos Eleri Thomas; £45 – 50,000 yn achos Andy Wallsgrove; a £50 – 55,000 yn achos Tony Evans.

*** Roedd Tony Evans (Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol) ar secondiad o Swyddfa Archwilio Cymru tan 30 Hydref 2009, talwyd ei gyflog gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac anfonebwyd y Comisiynydd Plant am y costau. Y costau yr anfonebwyd amdanynt ar gyfer y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2010 oedd £44,326. Ni chynhwyswyd costau pensiwn yng nghostau'r anfoneb.

**Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**

| | Pensiwn a gronnwyd ar 31.3.10* £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn* £000 | CETV(i) ar 31.3.10* £000 | CETV(i) ar 31.3.09* £000 | Cynnydd gwirioneddol yn CETV* £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Keith Towler<br>Comisiynydd Plant Cymru. | 0–5 | 0–2.5 | 51 | 24 | 23 |
| Eleri Thomas<br>Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd, o 5 Hydref 2009. | 0–5 | 0–2.5 | 11 | - | 10 |
| Andy Wallsgrove<br>Pennaeth Gweithrediadau, o 5 Hydref 2009. | 0–5 | 0–2.5 | 12 | - | 12 |
| Tony Evanst<br>Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, o 1 Tachwedd 2009. | 10–15 | 0–2.5 | 199 | 189 | 7 |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

**Iawndal a dalwyd, dyfarniadau sylweddol i uwch reolwyr blaenorol**

Cymerodd uwch swyddog ymddeoliad cynnar hyblyg ar 20 Chwefror 2009. Wrth ymadael, derbyniodd gyfandaliad gwneud iawn, a gwneir taliadau blynyddol nes bod y swyddog yn 60 oed.

**PY Cynllun Pensiwn**

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (classic, premium neu classic plus); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau gweithwyr ar lefel o 1.5% o'r enillion pensiynadwy yn achos y classic a 3.5% yn achos premium, classic plus a nuvos. Mae'r buddion classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y premium, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn

o wasanaeth. Yn wahanol i'r classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw classic plus yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y classic a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y premium. Yn nuvos mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.


Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau classic, premium a classic plus a 65 yn achos aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

**(i) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)**
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

**(ii) Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



**Keith Towler**
**Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu**
Awst 2010

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal, mae gofyn bod Comisiynydd Plant Cymru yn cadw cofnodion cyfrifo priodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, gan nodi manylion yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod a defnydd Comisiynydd Cymru o adnoddau yn ystod y cyfnod.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail gronnol, a rhaid iddynt roi cipolwg gwir a theg ar sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llifoedd arian ar gyfer y cyfnod.

Mae Atodlen 2, paragraff 10 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn datgan mai'r Comisiynydd fydd y Swyddog Cyfrifyddu a bod rhaid iddo, yn unol ag atodlen 2 paragraff 9, gyflwyno Cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (iFReM) a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn arbennig i wneud y canlynol:

- **cadw at y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;**
- **dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;**
- **datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn yr iFReM, wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y cyfrifon lle na ddilynwyd y safonau hynny; a**
- **pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.**

Cyflwynir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys EM.

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

**Cwmpas cyfrifoldeb**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, ond ar yr un pryd yn diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus.

Caiff cofrestr rheoli risgiau'r Comisiynydd ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cadw mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cwrdd â Gweinidogion Cymru yn rheolaidd i drafod unrhyw feysydd sy'n destun pryder.

**Pwrpas y system reolaeth fewnol**

Lluniwyd y system reolaeth fewnol i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob perygl y methir â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol, yn hytrach nag absoliwt, o effeithiolrwydd.

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso pa mor debygol yw gwireddu'r risgiau hynny a'u heffaith petai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiwastraff. Mae'r system reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010 ac yn parhau hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifol, mae'r systemau rheolaeth fewnol yn cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

**Gallu i ddelio â risg**

Mae gennyf Bolisi a Fframwaith Rheoli Risgiau, ac rwyf wedi penodi Rheolwr Strategaeth Risgiau. Rwyf wedi sicrhau bod fy Rheolwr Strategaeth Risgiau wedi asesu'r risgiau cysylltiedig â rheoli gwybodaeth o fewn fy swyddfa. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r polisi a'r fframwaith sy'n manylu ar y dull o ymdrin â rheoli risgiau a'r agwedd at hynny, ac yn diffinio'r strwythur ar gyfer rheoli risgiau a pherchnogaeth arnynt.

Hyfforddwyd y rheolwyr hynny sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch trafod risgiau, gan gydnabod y bydd angen cyfeirio rhai risgiau at y tîm rheoli. Anogir pob aelod o staff i drafod materion rheoli risg yn ystod eu cyfarfodydd tîm. Hefyd rhoddir hyfforddiant i'r staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r arfer gorau. Mae Pennaeth fy Ngwasanaethau Corfforaethol yn aelod o'r Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Ariannol, lle trafodir rheoli risgiau, a dysgu o'u profiadau.

**Y fframwaith risg a rheoli**

Ymgorfforir rheoli risgiau i'r broses gynllunio gorfforaethol. Asesir y risgiau strategol allweddol gan y Tîm Rheoli (TRh). Mae pob risg yn eiddo i aelod o'r TRh, ac mae'r gofrestr risgiau ar gael i'r holl staff. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gofrestr risgiau wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y TRh. Caiff unrhyw risgiau newydd neu newidiadau eu nodi a'u gwerthuso. Pennir yr awydd am dderbyn risg gan y Comisiynydd, gan ymgynghori â'r TRh yng nghyd-destun yr effaith ar enw da'r Comisiynydd; perfformiad gweithredol, gweithrediadol ac unigol y Comisiynydd, annibyniaeth y Comisiynydd; ac adolygiad annibynnol, gwrthrychol o weithgareddau, cerydd o unrhyw fath gan gyrff rheoliadol, colled ariannol, gwerth gwael am arian, defnydd amhriodol o arian cyhoeddus neu unrhyw achos o dorri rheoleidd-dra neu briodoldeb. Cynhelir asesiad risg o bob gweithgaredd gweithrediadol neu brosiect cyn cychwyn arno.

Mae fy archwilwyr mewnol, RSM Tenon, wedi cynnal adolygiad o'm strategaeth risgiau. Maent hefyd wedi cynnal adolygiad o'm cydymffurfiaeth â threfniadau rheoli gwybodaeth ac â Deddf Diogelu Data. Maent wedi cyflwyno nifer o argymhellion, sy'n cael eu rhoi ar waith.

>>>

**Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o'r system honno gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi cael fy nghynghori ynghylch goblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o fesurau rheoli mewnol gan y Pwyllgor Archwilio. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y system o fesurau rheoli mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.


Roedd y broses a gymhwyswyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

— **bu'r TRh yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ar y cyd;**

— **cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effethiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol; a**

— **chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn anffurfiol ddwywaith yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio. Yn ystod y cyfnod hwn, cychwynnodd y Comisiynydd ar y broses o recriwtio aelodau newydd i'r Pwyllgor Archwilio.**

RSM Tenon sy'n darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol i'm swyddfa. Maent yn gweithredu'n unol â safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Comisiynydd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant. Yn ystod 2009-2010 darparodd RSM Tenon sicrwydd rhesymol i mi ar gyfer y cyfnod hwn fy mod yn rheoli risgiau yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod gennyf fesurau rheoli a phroses lywodraethu priodol ar gyfer cyflawni fy amcanion.



**Keith Towler**

**Comisiynydd Plant Cymru**
**a Swyddog Cyfrifyddu**
Awst 2010

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cenedlaethol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 o dan baragraff 9(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Y rhain yw'r Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Gostau Gweithredu, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr, y Datganiad o lifoedd arian a'r Datganiad o Gost Weithredol Net yn ôl Elfennau Strategol a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo a gyflwynwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth y mae'r adroddiad hwnnw'n nodi ei bod wedi cael ei harchwilio.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu tro**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a Chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Cyflwynir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad taliadau cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rwy'n adrodd i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a Chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan y ddeddf honno. Rwy'n adrodd i chi a yw'r wybodaeth, yn fy marn i, sef y Rhagair, y Crynodeb o Weithgaredd, y Sylwadau Rheoli a'r Adroddiad Taliadau, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol. Rwyf hefyd yn adrodd a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr bwysig, wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Ar ben hyn, byddaf yn adrodd i chi os nad yw Comisiynydd Plant Cymru, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, os nad ydwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau gofynnol ar gyfer fy archwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynghylch taliadau a thrafodion eraill.

Rwy'n adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Comisiynydd Plant Cymru â chanllawiau Trysorlys EM, ac yn adrodd os nad ydyw. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu pob risg a mesur rheoli, na llunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Comisiynydd Plant Cymru na'i weithdrefnau risg a rheolaeth.

Rwy'n darllen yr wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a ydyw'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Yr wybodaeth arall hon yw'r Rhagair, y Crynodeb o Weithgaredd, Sylwadau'r Rheolwyr a'r rhan heb ei harchwilio o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau pwysig gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

**Y sail ar gyfer y farn archwilio**

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyflwynwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys edrych, ar brawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ai'r polisïau cyfrifo yw'r rhai mwyaf

priodol ar gyfer amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gynnal er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i fel bod gennyf dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiadau pwysig, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad, bod y gwariant a'r incwm ym mhob ystyr bwysig wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn, bûm hefyd yn gwerthuso digonolrwydd cyffredinol yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio.

**Barn**

Yn fy marn i:

— **mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg, yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddyd o dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru, ar gyflwr materion busnes Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2010 a'i alldro adnoddau net, y gofynion net o ran arian parod, yr adnoddau a gymhwyswyd ar gyfer holl nodau ac amcanion y sefydliad a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben;**

— **mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan y ddeddf honno; ac**

— **mae'r wybodaeth, sef y Rhagair, y Crynodeb o Weithgaredd a Sylwadau'r Rheolwyr, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.**

**Barn ynghylch Rheoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig cymhwyswyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gillian Body**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Awst 2010**

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

## Crynodeb Alldro Adnoddau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010

| | 2009-2010 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | | | | | | | |
| | **Gwariant gros** | **Incwm** | **Cyfanswm Net** | **Gwariant gros** | **Incwm** | **Cyfanswm net** | **Cyfanswm canlyniad net o'i gymharu â'r amcan** | **Ail-ddatgan canlyniad y flwyddyn flaenorol** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Costau gweinyddu | 1,837 | - | 1,837 | 1,857 | - | 1,857 | 20 | 2,077 |

## Cysoni'r alldro adnoddau net a'r gofynion ariannol net

| | Nodyn | 2009-2010 **£000** | 2008-2009 **£000 wedi'i ail-ddatgan** |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau | | 1,857 | 2,077 |
| Caffael asedau sefydlog | 5 | 29 | 85 |
| Gwaredu asedau sefydlog | | - | - |
| **Addasiadau cronni:** | | | |
| Eitemau heblaw arian parod | 4 | (168) | (190) |
| Defnydd o'r Ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 14 | 55 | - |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | | 15 | 41 |
| Gwyrdroi IAS19 ar gyfer y cyfnod blaenorol | | (21) | (22) |
| **Gofynion net o ran arian parod** | | **1,767** | **1,991** |

Mae'r ffigurau cymharol wedi cael eu hail-ddatgan yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Gostau Gweithredu
## ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2009-2010 **£000** | 2008-2009 **£000 Wedi'i ail-ddatgan** |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddu** | | 1,207 | 1,283 |
| Costau staff | 3 | 650 | 794 |
| Costau gweinyddu eraill<br>Costau gweinyddu gros | 4 | 1,857 | 2,077 |
| Costau gweithredu net | | **1,857** | **2,077** |
| **Alldro adnoddau net** | | **1,857** | **2,077** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion heblaw'r rhai yr adroddir amdanynt yn y Datganiad o Gostau Gweithredu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2010 £000 | £000 | 2009 £000 Wedi'i ail-ddatgan | £000 Wedi'i ail-ddatgan | 2008 £000 Wedi'i ail-ddatgan | £000 Wedi'i ail-ddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | | 84 | | 111 | | 78 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 6 | 46 | | 54 | | 30 | |
| Arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 7 | 274 | | 204 | | 358 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **320** | | **258** | | **388** | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill taladwy | 8 | (110) | | (133) | | (150) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(110)** | | **(133)** | | **(150)** | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | | | |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 14 | (181) | | (128) | | - | |
| Prydles gyllidol | 8 | (6) | | (12) | | (17) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(187)** | | **(140)** | | **(17)** | |
| **Asedau cyfredol / rhwymedigaethau llai cyfredol ac anghyfredol** | | | **23** | | **(15)** | | **221** |
| Cyfanswm Asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau | | | **107** | | **96** | | **299** |
| Cyllidir gan: | | | | | | | |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | | | | | |
| **Cronfa gyffredinol** | | | **107** | | **96** | | **299** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol **£000 wedi'i ail-ddatgan** |
|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2008** | | 321 |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifo | | (22) |
| **Gweddill wedi'i ail-ddatgan ar 1 Ebrill 2008** | | 299 |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2008-2009** | | |
| Addasiadau heblaw arian parod: | | |
| Cost Cyfalaf | 4 | 10 |
| Prydles gyllidol | 8 | 5 |
| Gwyrdroi IAS19 ar gyfer y cyfnod blaenorol | | 22 |
| Cost Weithredol Net am y flwyddyn | | (2,077) |
| Cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | | 1,837 |
| Symudiad ar 31 Mawrth 2009 | | (203) |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2009-2010** | | |
| Addasiadau heblaw arian parod: | | |
| Cost Cyfalaf | 4 | 4 |
| Prydles gyllidol | 8 | 6 |
| Gwyrdroi IAS19 ar gyfer y cyfnod blaenorol | | 21 |
| Cost Weithredol Net am y flwyddyn | | (1,857) |
| Cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | | 1,837 |
| Symudiad ar 31 Mawrth 2010 | | 11 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2010** | | **107** |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifo | | - |
| **Gweddill wedi'i ail-ddatgan ar 1 Ebrill 2010** | | **107** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Lifoedd Arian
## ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2009-2010 **£000** | 2008-2009 **£000 wedi'i ail-ddatgan** |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost Weithredol Net | 3, 4 | 1,857 | 2,077 |
| Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod | 4 | (168) | (190) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 6 | (8) | 24 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy | 8 | 23 | 17 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 14 | 55 | - |
| Gwyrdroi IAS19 am y cyfnod blaenorol | | (21) | (22) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **1,738** | **1,906** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | 29 | 85 |
| Derbyniadau o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | - | - |
| **All-lif arian net o weithgaredd buddsoddi** | | **29** | **85** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | | 1,837 | 1,837 |
| **Cyllido Net** | | **1,837** | **1,837** |
| (Cynnydd)/gostyngiad net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 7 | (70) | 154 |
| **Gofynion net o ran arian parod** | | **1,767** | **1,991** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**Datganiad o Gost Weithredol Net yn ôl Amcanion Strategol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010**

**NODAU AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU**
Nod: Diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a rhoi sylw i gonfensiwn y CU ar hawliau'r plentyn wrth ymarfer ei holl swyddogaethau.

| Amcan: | 2009-2010 **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | 2008-2009 **Gross £000 Wedi'i ail-ddatgan** | **Incwm £000 Wedi'i ail-ddatgan** | **Net £000 Wedi'i ail-ddatgan** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1** | 1,043 | - | 1,043 | 1,066 | - | 1,066 |
| **Amcan 2** | 298 | - | 298 | 301 | - | 301 |
| **Amcan 3** | 37 | - | 37 | 83 | - | 83 |
| **Amcan 4** | 42 | - | 42 | 73 | - | 73 |
| **Amcan 5** | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 6** | 304 | - | 304 | 419 | - | 419 |
| **Amcan 7** | 51 | - | 51 | 23 | - | 23 |
| **Amcan 8** | 82 | - | 82 | 112 | - | 112 |
| | **1,857** | - | **1,857** | **2,077** | - | **2,077** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 25 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**Roedd amcanion y Comisiynydd fel a ganlyn:**

1.Hyrwyddo hawliau a lles plant, a sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn ymwybodol o fodolaeth y Comisiynydd, o'i rôl a'i swyddogaeth; lleoliad ei swyddfeydd, sut gallant gyfathrebu/gael mynediad at y Comisiynydd a'i staff a hawliau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai a gyflwynir yng Nghonfensiwn y CU ar hawliau'r plentyn; annog y cyfathrebu/mynediad hwnnw; a sicrhau bod cyrff cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc.

2.Sicrhau y ceisir barn plant a phobl ifanc ynghylch sut dylai'r Comisiynydd ymarfer ei swyddogaeth ac ynghylch cynnwys rhaglen waith flynyddol y Comisiynydd.

3.Adolygu a monitro gweithrediad cwynion, eiriolaeth a chyngor, a threfniadau datgelu camarfer i ganfod a ydynt yn effeithiol o ran diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant, ac i ba raddau.

4.Adolygu a monitro'r effaith ar blant yn sgîl ymarfer neu'r bwriad i ymarfer unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru a/neu gyrff a restrir yn Atodlen 2a i Ddeddf Comisiynydd Cymru 2001.

5.Archwilio achosion plant penodol sydd yn neu wedi derbyn gwasanaethau wedi'u rheoleiddio gan gyrff a restrir yn Atodlen 2a i Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

6.Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn er mwyn gwneud cwyn neu gyflwyno sylwadau ffurfiol i ddarparwr gwasanaeth; a/neu unrhyw achosion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, os yw'r achosion, ym marn rhesymol y Comisiynydd, yn ymwneud â materion sydd â chymhwysiad neu berthnasedd mwy cyffredinol i hawliau a lles plant yng Nghymru. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw un.

7.Parhau i adolygu pwerau'r Comisiynydd a'r effaith ar blant.

8.Ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru am unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Mae'r amcanion yn destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth y Comisiynydd. Dosrannwyd y costau gweithredu yn ôl yr amcanion gan gyfeirio at y cyfnodau cymharol o amser a dreuliwyd gan y staff ar yr amcanion uchod.

## Nodiadau ar y cyfrifon adnoddau

### 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (iFReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr iFReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r iFReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

### 1.2 Incwm a chyllido

Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae'r Comisiynydd wedi prisio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn bwysig. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpiwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

### 1.4 Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnod a amcangyfrifir ar gyfer eu hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| — Offer TG | 3 blynedd |
| — Celfi | 5 mlynedd |
| — Cyfarpar Swyddfa | 5 mlynedd |
| — Gosodiadau a Ffitiadau | 5 mlynedd |
| — Cerbydau | 5 mlynedd |

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

### 1.5 Datganiad costau gweithredu

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

**1.6 Llog ar gyfalaf**

Cynhwysir llog, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd, yn y costau gweithredu. Cyfrifir y llog yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth o 3.5% (3.5% yn 2007-08) mewn termau gwirioneddol ar werth cyfartalog yr holl asedau heb gynnwys rhwymedigaethau, ac eithrio gweddillion ariannol a gedwid gyda Swyddfa Rheolwr Taliadau Cyffredinol EM, nas cafwyd o gwbl.

**1.7 Treth ar Werth**

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.

**1.8 Pensiynau**

Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Gostau Gweithredu ym mlwyddyn eu talu.

**1.9 Prydlesi**

Dosbarthir prydlesi asedau lle mae holl risgiau a manteision perchnogaeth ar ased wedi'i phrydlesi i bob pwrpas yn nwylo'r Comisiynydd fel prydlesi cyllidol. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Gostau Gweithredu, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealledig yn y brydles.

Codir tâl am rentu'r prydlesi gweithredol ar y Datganiad o Gostau Gweithredu mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

**1.10 Adroddiadau segmentol**

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Gostau Gweithredu yn adlewyrchu'r segmentau pan adroddwyd y canlyniadau gweithredol. Adroddir y gwariant net yn ôl amcanion yn y Datganiad o Gostau Gweithredu Net fesul Amcan Strategol.

**1.11 Treuliau Staff**

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

**1.12 Darpariaethau**

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

## 2. Mabwysiadu Safonau Rhyngwladol Adroddiadau Ariannol (IFRS)

| | Cronfa Gyffredinol **£000** |
|---|---|
| Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2008 yn ôl yr Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU | 321 |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| Mabwysiadu IAS17 – Prydlesi | - |
| Mabwysiadu IAS19 – Buddion Cyflogeion | (22) |
| **Ecwiti trethdalwyr ar 1 Ebrill 2008 o dan Safonau Rhyngwladol Adroddiadau Ariannol** | **299** |
| | **£000** |
| Cost weithredol net ar gyfer 2007-08 yn ôl yr Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU | 1,754 |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| Mabwysiadu IAS17 – Prydlesi | 6 |
| Mabwysiadu IAS19 – Buddion Cyflogeion | 22 |
| **Cost weithredol net ar gyfer 2007-08 o dan Safonau Rhyngwladol Adroddiadau Ariannol** | **1,782** |
| | **£000** |
| Cost weithredol net ar gyfer 2008-09 yn ôl yr Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU | 2,051 |
| Addasiadau ar gyfer: | |
| Mabwysiadu IAS17 – Prydlesi | 5 |
| Mabwysiadu IAS19 – Symudiad ym Muddion Cyflogeion | 21 |
| **Cost weithredol net ar gyfer 2008-09 o dan Safonau Rhyngwladol Adroddiadau Ariannol** | **2,077** |

IAS17 – Prydlesi
Mae IAS17 – Prydlesi yn cynnwys diffiniadau ar gyfer prydlesi cyllidol a gweithredol, ac mae'n cyflwyo gofynion o ran a oes gan brydles unigol nodweddion prydles gyllidol. Mae'r Comisiynydd wedi adolygu'r holl brydlesi ac wedi dod i'r casgliad fod gan ei brydles llungopïwyr nodweddion prydles gyllidol yn hytrach na phrydles weithredol, fel y pennir gan IAS17. Mae felly wedi datgelu ei brydlesi ar wahân, gan eu rhannu'n brydlesi gweithredol a chyllidol.

IAS19 – Buddion Cyflogeion
Mae IAS19 yn gofyn bod cost absenoldebau tymor byr adferedig (er enghraifft, tâl gwyliau) yn cael ei chydnabod. Mae'r Comisiynydd felly wedi codi croniad ychwanegol i adlewyrchu'r gofyniad hwn.

## 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

a) Ar gyfer y flwyddyn, roedd y costau staff yn cynnwys y canlynol:

| | 2009-2010 **£000** | 2008-2009 **£000 Wedi'i ailddatgan** |
|---|---|---|
| Tâl a Chyflogau | 921 | 938 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 55 | 75 |
| Costau pensiwn | 164 | 192 |
| **Is-gyfanswm** | 1,140 | 1,205 |
| Secondio mewnol a staff asiantaethau | 67 | 78 |
| | **1,207** | **1,283** |

b) Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2009-2010** | **2008-2009** |
|---|---|---|
| **Amcan 1** | 14.9 | 15 |
| **Amcan 2** | 4.3 | 4.5 |
| **Amcan 3** | 0.5 | 1 |
| **Amcan 4** | 0.6 | 1 |
| **Amcan 5** | - | - |
| **Amcan 6** | 4.4 | 6 |
| **Amcan 7** | 0.7 | 0.5 |
| **Amcan 8** | 1.2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **26.6** | **30** |

Dosrannwyd niferoedd staff i'r amcanion gan gyfeirio at y symiau cymharol o amser a dreuliwyd gan y staff ar amcanion, fel y disgrifir ar dudalennau 28 i 29.

## 4. Costau gweinyddu eraill

| | 2009-2010 £000 | **2008-2009 £000 Wedi'i ailddatgan** |
|---|---|---|
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol: | | |
| – cerbydau | 5 | 5 |
| – llety | 70 | 70 |
| – llungopïwr | 3 | 6 |
| Rhentu o dan brydlesi cyllidol: | | |
| – llungopïwr | 6 | 6 |
| Costau llety a chostau cysylltiedig eraill | 35 | 35 |
| TG a thelegyfathrebu | 38 | 72 |
| Cynnal cerbydau a swyddfeydd | 20 | 21 |
| Cyhoeddusrwydd, hysbysebu a chyfieithu | 6 | 15 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 39 | 56 |
| Recriwtio | 33 | - |
| Cydnabyddiaeth i'r Archwilydd Allanol | 18 | 17 |
| Cydnabyddiaeth i'r Archwilydd Mewnol | 10 | 9 |
| Cyfreithiol ac ymgynghoriaeth | 30 | 107 |
| Gwariant arall | 169 | 184 |
| Eitemau heblaw arian parod: | | |
| – tâl dibrisiad asedau cyffredin | 50 | 47 |
| – tâl dibrisiad prydles gyllidol | 6 | 6 |
| – colled ar waredu asedau sefydlog | - | - |
| – cost cyfalaf | 4 | 10 |
| – darpariaeth o fewn y flwyddyn | 108 | 128 |
| | **650** | **794** |

## 5. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Offer TG | Gosodiadau a Ffitiadau | Celfi a Chyfarpar Swyddfa | Cerbydau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 184 | 189 | 283 | 49 | 705 |
| Ychwanegiadau | 23 | - | 6 | - | 29 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **207** | **189** | **289** | **49** | **734** |
| **Dibrisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 170 | 183 | 231 | 10 | 594 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 21 | 5 | 20 | 10 | 56 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **191** | **188** | **251** | **20** | **650** |
| **Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2010** | **16** | **1** | **38** | **29** | **84** |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 14 | 6 | 52 | 39 | 111 |

## 6. Elfennau masnachol derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2009-2010 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Elfennau masnachol derbyniadwy | 14 | 20 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 32 | 34 |
| | **46** | **54** |

## 7. Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb iddo

| | 2009-2010 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2009 | 204 | 358 |
| Newid net yn y gweddillion arian parod a’r hyn sy’n cyfateb iddo | 70 | (154) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2010** | **274** | **204** |

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth ar ffurf daliadau gyda banc Masnachol ac arian mewn llaw.

## 8. Elfennau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| **Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn** | 2009-2010 £000 | 2008-2009 £000 |
|---|---|---|
| Trethi a Nawdd Cymdeithasol | 29 | 39 |
| Elfennau masnachol taladwy | 12 | 8 |
| Croniadau | 63 | 81 |
| Prydles gyllidol | 6 | 5 |
| | **110** | **133** |
| Symiau fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | |
| Prydles gyllidol | 6 | 12 |
| | **6** | **12** |

## 9. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 9.1 Prydlesi gweithredol

Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben

| | 2009-2010 £000 | | 2008-2009 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac Adeiladau** | **Eraill** | **Tir ac Adeiladau** | **Eraill** |
| **Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol:** | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | - | - | - | - |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | - | 6 | - | 17 |
| Ar ôl pum mlynedd | 70 | - | 70 | - |
| | **70** | **6** | **70** | **17** |

## 9.2 Prydlesi cyllidol

Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben

| | 2009-2010 £000 | | 2008-2009 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tir ac Adeiladau** | **Eraill** | **Tir ac Adeiladau** | **Eraill** |
| **Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidol:** | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | - | 6 | - | 5 |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | - | 6 | - | 12 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | - | - |
| | - | 12 | - | 17 |
| Taliadau ar y brydles gyllidol yn y dyfodol | - | - | - | 1 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth y brydles | - | 12 | - | 18 |

**10. Offerynnau ariannol**

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i weithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt. Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

**Risg Hylifedd**

Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg cyfradd llog**

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**

Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd teg**

Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2010.

**11. Ymrwymiadau cyfalaf**

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2010.

**12. Rhwymedigaethau amodol**

Mae'r Comisiynydd yn ymddangos gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth ynghylch hawliad gan gyn-gyflogai. Bydd yr achos yn ail-ymgynnull yn 2010-11, a gellid gwneud rhwymedigaeth ar ffurf iawndal, fodd bynnag, mae hynny'n annhebygol.

**13. Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti cysylltiedig. Bu gan y Comisiynydd nifer bychan o drafodion pwysig gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyfnod.

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

## 14. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Ymadael yn Gynnar Arall (£'000) | Arall (£'000) | Cyfanswm (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2009 | 83 | 45 | 128 |
| Defnydd o'r ddarpariaeth | (10) | (45) | (55) |
| Darpariaeth o fewn y flwyddyn | 102 | 6 | 108 |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2010 | **175** | **6** | **181** |

**Costau Ymadael yn Gynnar**

14.1 Mae'r Comisiynydd yn talu am gost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yng nghyswllt gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar trwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar ac oedran arferol ymddeol. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd yr ymadawiad cynnar yn dod yn rhwymol trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

**Arall**

14.2 Mae Comisiynydd Plant Cymru yn ymddangos gerbron Tribiwnlys Cyflogaeth ynghylch hawliad a wnaed gan gyn-gyflogai. Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu darpariaeth yn 2008-09 i dalu am gostau cyfreithiol mynychu gwrandawiad y Tribiwnlys Cyflogaeth, a fydd yn ail-ymgynnull yn 2010-11.

15. Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn.

**Comisiynydd Plant Cymru**

Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS
T 01792 765600
F 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy LL29 7YW
T 01492 523333
F 01492 523336

post@complantcymru.org.uk
www.complantcymru.org.uk

Rhadffôn
**0808 801 1000**
Rhadtecst
**80800**
**(Dechreuwch y neges gyda COM)**

**dylunio elfen.co.uk**